# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 331

Medi 2010

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


## ASCOT Y BORTH



Ers saith mlynedd bellach bu Roy Jones yn trefnu dathliad Diwrnod Y Merched yn Ascot, ond yn hytrach na mynd yr holl ffordd yno mae pawb yn gwisgo i ddynwared yr Ascot go iawn ac yn ei fwynhau llawer yn nes at adre -sef yn Danny's Bar yn y Borth! Fel y gwelwch o'r llun mae'r merched yn cymryd o peth o ddifrif drwy wisgo'n hynod smart, yna gwylio'r rasus mewn steil- yn gwledda ac yn mwynhau cynnwrf y cystadlu. Bydd cwpan yn cael ei chyflwyno i'r sawl sy'n ennill y mwyaf o rasus a chaiff enw'r enillydd ei gerfio ar y gwpan. Hoffai'r merched ddiolch felly i Roy ac maent yn edrych ymlaen yn barod at y flwyddyn nesa!

## LLWYDDIANT I DAFARN LEOL

Enillodd Tafarn y Welsh Black gydnabyddiaeth yng Ngwobrau 'Best Bar None' Ceredigion, a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion yn Aberaeron ddydd Gwener 9 Gorffennaf. Nod y cynllun cenedlaethol hwn, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn y sir hon eleni, yw mynd i'r afael â throseddau'n ymwneud ag alcohol a hyrwyddo yfed cyfrifol mewn tafarndai a chlybiau nos. Tafarn y Welsh Black oedd un o 17 o sefydliadau yng Ngheredigion a gafodd achrediad yn y Gwobrau, sy'n gwobrwyo amgylchedd croesawgar, bywiog a diogel. Llongyfarchiadau mawr i Darren Huxtable a'i holl staff am eu holl waith caled.



## SIOE'R CARDIS 2010



Agorwyd y Sioe Fawr, Sioe'r Cardis, yn Llanelwedd gan yr Arglwydd Elystan-Morgan, a chafwyd araith amserol a chofiadwy iawn ganddo. Gwelir, ymhlith eraill yn y grŵp Elin Jones, AC, Owain Morgan, Carwyn Jones a Dai ac Olwen Jones, Llanilar..

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977
ISSN 0963-925X | Rhif 331 | Medi 2010

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG


## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MEDI 30 a HYDREF 1 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI HYDREF 14

**MEDI 21-22** Nosweithiau Mawrth a Mercher Gwlad yr addewid (cyfieithiad Sharon Morgan o'r ddrama House of America) Ed Thomas yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 7.30

**HYDREF 6** Nos Fercher Cwrdd diolchgarwch Horeb yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Parchg Tecwyn Ifan.

**HYDREF 14** Nos Iau Darlith gan yr Athro Dafydd Johnson am Ddafydd ap Gwilym yng Nghapel Horeb, Penrhyn-coch am 7.30 Trefnir gan Gymdeithas Canolfan Dafydd ap Gwilym. Manylion cyswllt: Dr Tedi Millward, 44 Ger-y-llan, Penrhyn-coch

**HYDREF 20** Nos Fercher Cofio BJ yng nghwmni Andrea Parry ac eraill. Cymdeithas y Penrhyn yn Festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**HYDREF 22** Nos Wener Actoresau yn ... dweud storiau yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Mehefin

£25 (Rhif 126) Gweneira Marshall, 1 Bro Gerddan, Penrhyn-coch.
£15 (Rhif 56) Y Parchg Richard Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street.
£10 (Rhif 210) Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch.
Fe dynwyd y rhifau buddigol gan aelodau pwyllgor Y Tincer yn dilyn pwyllgor yn festri Noddfa nos Fercher Mehefin y 16eg 2010

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion y Tincer 2010 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

## Cyfarfod Blynyddol y Tincer

Yng nghyfarfod blynyddol y Tincer nos Fercher 8fed Medi penodwyd y swyddogion canlynol am 2010/11.
Cadeirydd: Elin Hefin, Y Borth
Is-gadeirydd: Bethan Bebb, Goginan
Ysgrifennydd: Anwen Pierce, Bow Street
Trysorydd: Hedydd Cunningham, Llandre.
Trefnydd gwerthiant: Bryn Roberts, Bow Street
Trefnydd hysbysebion: Rhodri Morgan, Llandre

Penderfynwyd hefyd ddod a'r pris i lawr i 75c y rhifyn — ond bod modd i rai brynu 10 copi am £7 y flwyddyn gan y dosbarthwyr.

**Y Tincer drwy'r post** - Cysylltwch â'r Trysorydd .

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun,Aberystwyth,SY23 3BB 612 984

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## Gwirfoddolwyr Gorsaf Rheilffordd y Borth

**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**
**NEUADD Y PENTRE**
30ain o FEDI
7.30yh

Mae cynlluniau ar waith i agor rhai stafelloedd ar yr hen orsaf er mwyn ail greu hen swyddfa docynnau ac ystafell aros a fydd yn ymgorffori arddangosfa hanesyddol o'r orsaf a phentre'r Borth.

Os oes diddordeb gennych i rhoi help llaw mewn unrhyw ffordd, bydd eich presenoldeb yn y cyfarfod yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

### Swdocw

Braf oedd gweld bod sawl un wedi cael hwyl ar bôs swdocw'r Tincer. Da iawn chi am gystadlu: Mary Thomas, Dolgelynen, Llandre; Glenys Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch; Elen Evans, Erw Las,Bow Street; Llio Adams, Glyn Helyg, Penrhyn-coch a Gwynant Phillips, Cae'r Odyn, Bow Street. Yr enw cyntaf ddaeth o'r het oedd un Glenys Howells, sy'n ennill cyfrol hardd 'Llwybr Arfordir Ceredigion' gan Phil Jones (Gwasg Gomer). Gobeithio bydd modd gosod pôs tebyg yn ystod y misoedd nesaf.

### Bwrdd yr Iaith Gymraeg


Mae copi o adroddiad Blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009/10 ar gael ar gyfer darllenwyr 'Y Tincer'. Os hoffech ei weld, plis cysylltwch ag Anwen (yr ysgrifennydd), anwenmai@hotmail.co.uk

Cofiwch hefyd fod rhai disgiau 'Pecyn Dewis Iaith / Language Choice Pack' Bwrdd yr Iaith dal ar gael gan Anwen. Mae'r disgiau am ddim, ac mae'n nhw'n eich galluogi i ddefnyddio cyfrifiadur Cymraeg adref neu yn y gwaith, os oes gennych Microsoft Office 2003 neu 2007 a/neu Microsoft Windows XP Professional, Home Edition, Tablet PC, neu Windows Vista. Plis cysylltwch ag anwenmai@hotmail.co.uk os hoffech dderbyn disg.



Bu cwmni Licris Olsorts yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynebwy gan gipio'r ail wobr gyda'r ddrama Ni'n Dwy gan Nan Lewis. Cipiodd Catrin Jenkins wobr y prif actor/actors gyda'i chymeriad Mari yn y ddrama. Siom I'r cwmni oedd methu cystadlu gyda'r ddrama Y Six Ten O Euston gan Gwynedd Huws Jones gan i Eleri James gael damwain i'w choes pythefnos cyn yr eisteddfod. Deallwn fod Eleri yn gwella erbyn hyn.

### Golygydd Cristion




Dymuniadau gorau i'r Parchg Casi Jones, Y Felinheli, sydd yn dechrau ei thymor fel golygydd y cylchgrawn Cristion ym mis Medi. Bu Casi (nee Tomos) yn byw yn Llandre tra yn yr ysgol. Ar ôl cyfnod yn weinidog ym Mhumsaint a'r Barri mae'r teulu wedi synud i'r Felinheli lle mae ei gŵr yn reithor.

## LLYTHYR

Annwyl Gyfaill

**Taith Dewi Sant: 2-10 Hydref 2010**

Bwriad y llythyr byr hwn yw eich cyflwyno i "Taith Dewi Sant," cenhadaeth wythnos o hyd a fydd yn dwyn y newyddion da am Iesu Grist i bobl ein hardal.

Mae arweinwyr eglwysi lleol wedi gwahodd mudiad o'r enw "Through Faith Missions" i gydlynu'r genhadaeth ymhlith yr eglwysi yn ardal Aberystwyth ac yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Hydref bydd tîm cenhadol o ddeg yn ymweld ag ardaloedd Bow Street, Tal-y-bont, Comins-coch, Taliesin a Phenrhyn-coch i rannu'r newyddion da am Efengyl Iesu Grist. Bydd y tîm yn cyd-weithio â'r eglwysi lleol ac maent yn awyddus i gyfarfod â chymaint o bobl ag sy'n bosib yn ystod wythnos y genhadaeth. Byddant yn mynychu digwyddiadau arbennig, gwasanaethau ysgol, cartrefi preswyl, tafarndai yn ogystal â mynd o ddrws i ddrws. Bydd pob un o'r gwirfoddolwyr, sy'n Gristnogion cyffredin o bob rhan o wledydd Prydain, yn gwisgo crysau duon gyda'r "logo" "Taith Dewi Sant" ac felly bydd yn hawdd eu hadnabod.

Gobeithio y cewch gyfle i'w cyfarfod ac i ymuno â ni i'w croesawu i'n hardal.

Os hoffech dderbyn unrhyw wybodaeth bellach yna peidiwch â phetruso cyn cysylltu â Wyn neu Judith Morris ar y rhif 820939.

Yn ddiffuant

Tîm Cydlynu Taith Dewi Sant ar gyfer Bow Street, Tal-y-bont, Taliesin a Phenrhyn-coch

## Cystadleuaeth Carol Cristion 2010

**Gwobr:**
Cwpan o waith Caitlin Jenkins, Ewenni.
Rhoddir y wobr gan Gwyn Tudur Davies a Llinos Howells er cof am eu tad, Y Parchedig Tudor Davies.

Beirniad: Y Prifardd Tudur Dylan Jones Caerfyrddin

**Rheolau**:
1: Gall y geiriau fod ar fesur emyn dôn draddodiadol neu mewn arddull mwy cyfoes
2: Dylai pob ymgeisydd roi ffugenw yn unig ar ei g/waith ac anfon ei h/enw, cyfeiriad a rhif ffôn mewn amlen dan sêl gyda'r gwaith.
3: Rhaid anfon y carolau at y Golygydd i gyrraedd dim hwyrach na Hydref y 15fed 2010. Bydd y garol fuddugol yn cael ei chyhoeddi yn rhifyn Tachwedd/Rhagfyr o Cristion.

Dylid anfon y carolau at: Y Parch Casi Jones Y Ficerdy, Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4SQ

## 30 Mlynedd 'Nôl



**Mrs Valma Jones, prifathrawes Ysgol Gynradd Trefeurig, a phlant yr ysgol ar achlysur ei hymddeoliad ym mis Gorffennaf. Yn ei llaw y mae llun olew o'r Ysgol a beintiwyd yn arbennig gan Mr Hugh Jones, Panteg, ac a gyflwynwyd yn rhodd iddi. Yn y llun hefyd y mae ei chyd-athrawes, Mrs Della Williams.**
**Llun: Hugh Jones**
**(O't *Tincer* Medi 1980)**

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

ytincer@googlemail.com

# Y BORTH

### Colled

Dirdynol iawn yw gorfod cofnodi colled ofnadwy i'r pentre, sef colled Caitlin Morris, merch bump oed Fergus a Vanessa. Roedd Caitlin wedi bod yn sâl iawn ers blynyddoedd, gan dreulio misoedd ar eu hyd yn yr ysbyty leol a Chaerdydd. Er hyn fe aeth yn achlysurol i ysgol y Borth ac roedd wrth ei bodd yn cadw'n brysur —coginio, darllen, lliwio, gludo a glitter oedd ei hoff bethau. Cydymdeimlwn o waelod calon gyda'i theulu oll.

### Gwella

Rydym yn hynod falch o weld fod Dawn Brindley (Mayfield) yn ôl yn ein mysg ar ôl bod yn ysbyty Treforus am rhai wythnosau. Gobeithio y bydd hi'n teimlo'n holliach cyn bo hir.

### Carnifal

Brenhines y carnifal eleni oedd Lauren Byrne, ac yn nhraddodiad Carnifal y Borth roedd hi'n edrych yn bictiwr pert iawn gyda'i dillad hyfryd a'i gwên fawr arferol.Doedd hi ddim yn brin o gwmni ar ei fflôt chwaith-o'i chwmpas yn teithio drwy'r pentre roedd ei chwiorydd a'i chyfnitherod , ei Mam yn cerdded



gerllaw, e'i thad yn gyrru a'i Mam-gu yn set y pasenjyr.

### Clwb Golff

Ar Orffennaf 10fed cynhaliwyd 'Summer Ball' Clwb Golff y Borth ac Ynys-las yn Neuadd y Borth i ddathlu 125 mlynedd y Clwb. Daeth 174 o bobl ynghyd a chafwyd noson arbennig iawn yng nghwmni Rhys Taylor a'r Fand, Aber Jazz a Melanie Coffi. Gwnaethpwyd y bwyd gan Glwb Golff y Borth a gwnaeth Clwb Pêl Droed y Borth weini ar y gwesteion yn rhad ac am ddim. Codwyd £855 at Ffagl Gobaith.

### Croeso

I Helen Ovens (yn wreiddiol o Dal-y-bont) a'i gŵr Innes Heron (yn wreiddiol o'r Alban) sydd wedi symud i fyw i Lys am gyfnod . Mae Helen wedi dechrau swydd fel Swyddog Trosglwyddo Gwybodaeth gyda Hybu Cig Cymru ac mae Innes yn gweithio yn yr Alban ar un o'r rigiau olew.

### Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch

*Gwibdaith yr Haf*

Edrychir ymlaen, bob blwyddyn, at Wibdaith Haf y Gymdeithas Gymraeg, a phob blwyddyn, ers blynyddau erbyn hyn, mae'r trefnwyr yn llwyddo i gadw cyrchfan y wibdaith yn gyfrinach fawr. Felly, ddydd Mercher, 23 Mehefin, yr oedd cryn ddyfalu ymhlith y teithwyr llawen, pan drodd gyrrwr eu bws tua'r de.

Yn gyntaf, daeth stop awr yn Aberaeron am y baned o goffi sy'n rhan bwysig o bob siwrnai gyda'r Gymdeithas. Ymlaen wedyn i Synod Inn, lle'r ymunwyd â'r aelodau gan John Meirion Morris, a lle datgelwyd cyfrinach y dydd gan drefnydd y wibdaith, sef Y Parchg Wyn Rh. Morris. Yr oeddem ar drywydd T. Llew Jones, o dan arweiniad Jon Meirion Jones, addysgwr, cyn-brifathro yn Llandudoch ac yn aelod o Deulu'r Cilie. Geiriau cyntaf Jon Meirion oedd: "Croeso i fro gogoniant, lle mae'n haf o hyd a'r gaeaf yn haf hefyd". Ac yn wir, diwrnod braf o haf a gawsom a'r haul yn tywynnu trwy'r dydd.

Gydag arweinydd difyr a llawn gwybodaeth ar ford, fe aethpwyd heibio i fro Siôn Cwilt, gan gofio Dirgelwch yr Ogof T. Llew Jones a chael tipyn o hanes yr awdur, gan gynnwys ei wasanaeth gyda'r RAF yn yr Aifft, lle byddai'n darllen Dewi Emrys yn Y Cymro yn ei amser sbâr ; cafwyd stop, wedyn, i weld cartref cyntaf Dewi Emrys yn Nhalgarreg. Ar ôl hynny, fe dreuliwyd diwrnod hapus yn crwydro ffiniau Ceredigion a Chaerfyrddin, gan ymweld â phentrefi megis Capel Cynon, o ble daeth y ffermwr a'r phrifardd, Thomas Jacob Thomas (Sarnicol), a enillodd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni 1913, cyn dod yn ail i Hedd Wyn yn Eisteddfod Penbedw, 1917. Wedyn, fe ddaeth Bwlch-y-groes, lle bu Elfed Lewis yn weinidog a lle bu T.Llew Jones yn byw, pan oedd yn athro yn Nhre-groes. Stopiodd y bws ym Mhentre-cwrt, lle ganwyd a magwyd T. Llew Jones mewn ardal o goed a dolydd breision, gwlad y pysgotwr (a'r potsiar), lle dysgodd T. Llew i chwarae criced ar faes a rannwyd rhwng y tim criced a gwartheg y pentref. Yno, hefyd, fe gafwyd ymweliad annisgwyl â ffatri ddodrefn y gegin Makepeace ym Melinau Derw; daeth llawer o'r merched i ffwrdd gyda chatalogau lliwgar a breuddwydion am geginau newydd.

Cafwyd awr yn Henllan i gael picnic ac i ymweld â'r Capel hardd, a wnaethpwyd gan garcharorion



Tomos Watkin, Blaenwaun. Y Borth, yn derbyn y cwpan am yr arddangosfa orau yn adran Plant Ysgolion Uwchradd, yn Sioe Tal-y-bont eleni.

rhyfel o'r Eidal allan o gaban "Nissan" digon cyffredin. Siaradodd Jon Meirion Jones am ei atgofion o'r rhyfel ac o'r carcharorion eu hunain, gan gofio'r brawdgarwch a ddatblygodd rhyngddynt â phobl y fro.

Mwynhawyd te Cymreig yn Nhan-y-Groes, cyn mynd ymlaen i Langrannog a Gwersyll yr Urdd, gan basio tai Moelona, sef Elizabeth Mary Jones, awdures llyfrau poblogaidd i blant, a Chranogwen, sef Sarah Jane Rees, athrawes, llongwraig a golygydd Y Frythones. Ym Mhontgarreg, fe berswadiwyd Iolo, ail fab T.Llew Jones a chwaraewr gwyddbwyll rhyngwladol, i esgyn i'r bws ac i ddarllen ei englynion er cof am ei dad.

Clywyd am ddau gysylltiad lleol i ardal y Tincer gan Jon Meirion - bu T. Llew yn aros yn y Borth pan letyai gyda Gareth a Mari Raw-Rees. Yr hanes arall oedd gan Jon Meirion oedd hanes ei dad ef yn teithio ar y trên at deulu yn Nhreorci ac yn darganfod fod un fu'n cyd-deithio iddo ar y trên — Dewi Morgan - wedi sefyll y noson wedyn yn yr Eisteddfod fel bardd y gadair.

Daeth diwrnod hyfryd i ben yn Nhafarn Ffostrasol. Cyn swper, gofynnwyd bendith ar y bwyd gan Y Parchg Richard Lewis. Ar ôl pryd o fwyd blasus, diolchwyd yn gynnes gan Y Parchg Elwyn Pryse a'r Parchg W.J. Edwards i'r Parchg Wyn Morris ac i Jon Meirion Jones oedd wedi trefnu ac arwain diwrnod i'w gofio.

### Y Morglawdd

Yn ôl bob golwg mae'r paratoadau er amddiffyn ein pentref yn mynd yn eu blaenau'n hwylus. Cytunodd Ceredigion i'r cynlluniau; mae'r Cymulliad yn hapus ac mae'r arian angenrheidiol o Gymru ac o Ewrop yn barod i'w wario. Mae'r gwaith wedi dechrau eisioes a'r cyngor wrthi'n cryfhau y wal bren sy'n

## BRAIN BACH Y BORTH

**Llun pwy yw hwn?**

Mae'n fwriad gan ein clwb pêl-droed sefydlu tîm dan 12 oed. Ein Llywydd yw Dr. Ian Hosker, sy'n cefnogi'r syniad o bobl ifanc yn cyfrannu i'w hiechyd trwy ymarfer eu cyrff.

Os oes gennych ddiddordeb:-

a. Anfonwch eich ateb i'r cwestiwn uchod i Ynyswen, Y Borth SY24 5JD (gwobr £10.00)
b. Dewch i'r gêm nesa ar Fedi'r 18fed am 2.30
c. Cefnogwch y Brain Mawr!

Am fwy o fanylion, ffoniwch 871042





Mrs. Bethan M. Watkin, Blaenwaun,Y Borth, yn beirniadu'r Defaid Torwen Cymreig yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd eleni.

bodoli gyda choed cryf 'Greenheart'. 'Mae para yn rhain' dywedodd un o'r gweithwyr. Gobeithio ei fod yn dweud y gwir! Wedi i'r contractwyr gwblhau manylion y Morglawdd bydd y gwaith mawr yn dechrau ym mis Hydref. Brysied y dydd.

### Eglwys St. Mathew

Â'r gwyliau yn dod i ben, bu aelodau o Eglwys Sant Mathew yn prysur codi arian mawr ei angen er mwyn cadw a chynnal yr Eglwys. Dydd Sadwrn, 21 Awst, cynhaliwyd Cystadleuaeth Flodau yn Neuadd Gymunedol Y Borth. Arddangoswyd llawer o drefniadau flodau hardd, gan gynnwys adran arbennig i'r plant ar thema "Ar Lan y Môr". Rhoddwyd anerchiad gan Mrs Lilian Hughes, Eglwys-fach, am y grefft o drefnu blodau a hithau feirniadodd y Gystadleuaeth. Trefnwyd yr achlysur gan Mrs Jo Jones, Trysorydd yr Eglwys.

Dydd Mawrth, 24 Awst, cynhaliwyd Bore Coffi yn Dovey Belle, cartref Mr Michael a Mrs Susan James. A phawb yn mwynhau paned o goffi, darparwyd difyrrwch ysgafn gan Michael, gyda detholiad o ganeuon hen a newydd ar y piano.
Dydd Iau, 26 Awst, yr oedd yr Eglwys ar agor drwy'r dydd. Croesawyd ymwelwyr gyda lluniaeth ysgafn, wedi'i ddarparu gan Joy Cook, Freda Darby a chwiorydd eraill yng nghwt yr Ysgol Sul. Yr oedd y Ficer, Y Parchg Cecilia Charles ac eraill ar gael drwy'r dydd, i ddweud hanes yr Eglwys wrth y nifer dda o ymwelwyr oedd wedi'u denu i mewn i edrych o gwmpas yr adeilad.

Diolchir i bawb a gefnogodd y digwyddiadau hyn.

### Dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau i Eleanor a Steffan Richards , Glanleri, ar eu canlyniadau a dymuniadau gorau i Eleanor fydd yn astudio cyfrifyddiaeth yng Nghaerdydd ac i Steffan fydd yn astudio Gwyddor Chwaraeon yng Nghaerfyrddin.

## DYSGWR Y MIS



**Beth yw eich enw?**
Jill Roberts

**Faint yw eich oed?**
69

**Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg?**
Am sbel!

**Ble oeddech chi'n dysgu Cymraeg?**
Yn wreiddiol gyda Felicity Roberts ac Alun Jones yn Bow St., a wedyn cyrsiau preswyl yn Harlech (cwrs carlam) a Wrecsam. Gwnes i lefel 'O'ail iaith yn dilyn cwrs gyda Meirion Davies.

**O le ydych chi'n dod yn wreiddiol?**
Roedd fy rhieni yn dod o'r Alban, ond ces fy magu yng ngogledd Llundain. Ar ôl priodi bues yn byw yn Essex a gweithio fel prifathrawes mewn ysgol gynradd yno.Symudon i Ffwrnais ym 1975 am fod fy ngŵr yn agor Plas Einion.

**Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg?**
Achos priodais i â Chymro ac roedd y plant yn mynychu ysgol Tal-y-bont a Phenweddig. Roeddwn yn teimlo' ei fod yn bwysig i drio bod yn rhan o'r ardal a dangos parch i'r iaith leol. Dwi mor falch mod i wedi neud yr ymdrech am fy mod wedi cael blas mawr ar y diwylliant Cymreig ac wedi cwrdd â chymaint o bobl dda ac amyneddgar!

**Pryd, neu gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg?**
Ers i'n bechgyn adael cartre, mae llai o gyfle i siarad. Cymraeg oedd iaith y cartre pan alwai eu ffrindie, a Chymraeg oedd iaith cymdeithasu gyda'r ysgol. Dwi ddim yn cael cymaint o gyfle y dyddie yma- ac mae'n drueni.

### Bedydd Ffredi

Bedyddiwyd Ffredi Puw Jones yn Eglwys Sant Matthew ar Fehefin y 10fed eleni, a fel y gwelwch o'r llun roedd y teulu bach wrth eu bodd- y tri yn wên o glust i glust! Mae hanes diddorol iawn i'r ŵn fedyddio - nid Ffredi oedd y cynta i'w gwisgo-roedd ei Fam, Lizzie, ei Fam-gu Sarah Pugh e'i hen Fam-gu Mrs. Pam Gibbs a'i Hen Hen Fam-gu wedi ei gwisgo o'i flaen. Ffaith hynod ddiddorol i ychwanegu at hyn i gyd yw mai gwisg wedi ei gwneud o un o beisiau'r Frenhines Fictoria yw hi.

Roedd Mam-gu Mrs. Gibbs yn arfer gweithio i un o 'Ladies in Waiting' y Frenhines, ac arferiad y Frenhines oedd rhoi un o'i pheisiau i'w morynion pan oeddynt yn priodi! Mae'n debyg fod y wisg yn dyddio o 1868.

Er hyn i gyd- gwên Ffredi oedd y peth mwyaf ysblennydd ar ddiwrnod ei fedydd ddechrau'r haf. Fe'i gwelir gyda'i rieni Huw a Lizzie.



## CLARACH

### Dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau i Lisa James, Gilwern, Llangorwen ar ei chanlyniadau lefel A rhagorol a dymuniadau gorau ar ei chwrs meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

### Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau i Mrs Glenys Jones, Pistyll Tegan, Clarach, ar ddathlu pen blwydd arbennig iawn yn 90 oed yn ddiweddar.

GAREJ CWRT
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Brysiwch wella

Dymuniadau gorau a gwellhad buan i Eirlys Davies, Caehaidd, sydd wedi treulio rhai dyddiau yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Da yw dweud ei bod yn ôl adref erbyn hyn ac yn cryfhau bob dydd. Cafodd Mair Stanleigh Dolfawr ben-glin newydd yn ystod yr haf. Mae hi hefyd lawer yn well erbyn hyn.

Treuliodd Jean Cock, Gwarfelin, rai wythnosau yn yr Ysbyty ar ôl damwain yn ei chartref ond mae hithau dipyn yn well erbyn hyn.

### Arholiadau

Llongyfarchiadau mawr i bobl ifanc yr ardal a wnaeth yn dda iawn yn eu harholiadau. Cafodd Angharad Spence-Wilson, Fferm Aber-ffrwd, hwyl arbennig ar y TGAU ac Ayshea Doidge, Caegynon, ar y Lefel A. Mae Anghard yn mynd yn ôl i'r chweched dosbarth yn Ysgol Pen-glais ac mae Ayshea yn mynd i Brifysgol Caerwysg. Dymuniadau gorau hefyd i Ellie, chwaer Ayshea, sydd yn mynd i astudio ym Mhrifysgol Loughborough ar ôl treulio blwyddyn yn gwneud cwrs sylfaen yn y Coleg yng Nghaerdydd.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Paul a Norma Stephens, Blaenddol, ar farwolaeth gŵr i chwaer Paul ddechrau yr haf.

### Merlota

Ymunodd Nerys Daniel a nifer o farchogwyr o ardal y Tincer a Shân Cothi i farchogaeth ar hyd y ffyrdd o amgylch Machynlleth i godi arian ar gyfer elusen



Yn y llun gwelir Shân Cothi yn arwain Glenwen Morgans, Lewis a Haf Morgans, Karen Maloney a Meleri Morgan ar y daith.

# PEN-LLWYN/CAPEL BANGOR

### Ysbyty

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i ddau o'n pentrefwyr sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol yn ystod yr haf. Cyfeiriwn at Mrs Enid Jones, Awel Deg, a Mr Tom Davies, Sŵn y nant. Boed i'r ddau deimlo yn well erbyn hyn.

### Diolch

Dymuna Mr a Mrs Elystan a Catrin Evans, Ardwyn, ddiolch yn gynnes iawn i bawb yn ddiwahan am eu cardiau, arian ac anrhegion, ar enedigaeth eu baban newydd Ania Marged, chwaer fach Owen Ellis. Gwerthfawrogwyd eich caredigrwydd yn fawr. Llawer o ddiolch eto.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr a Mrs Martin Davies a'r teulu Maencrannog, sydd wedi colli brawd yng nghyfraith ac ewythr yn ddiweddar. Mr Arthur Walker, Llangrannog, a oedd wedi cyrraedd ei 90 oed y llynedd. Cofiwn amdanoch yn eich colled.

### Dyweddïad

Hyfryd yw medru cyhoeddi dyweddïad Hannah Jones, Tangaer, â Owain Jones Aberystwyth, sydd yn fwy adnabyddus i rai ohonoch, efallai, fel mab Bethan Bryn y delynores a Bob Morris Jones. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r ddau, ac i'w teuluoedd yn ogystal.

### Ennill Grâdd

Llongyfarchiadau mawr i Mr Glyn Williams, Brynrheidol, Blaengeuffordd, sydd wedi derbyn gradd Baglor mewn Gwyddoniaeth. (BSc) a'r testyn - "Technoleg Pensaerniol." Pob dymuniad da i'r dyfodol Glyn.

### Sioe Capel Bangor

Yr oedd y Sioe eleni yn dathlu ei phen blwydd yn ddeugain oed a'r Llywyddion oedd Dilwyn a Delma Jones, Blaen-plwyf. Dilwyn oedd ysgrifennydd cyntaf y Sioe a chafwyd araith arbennig iawn ganddo yn dwyn i gof y dyddiau cynnar. Diolch o galon i Dilwyn a Delma am eu rhodd werthfawr i goffrau y Sioe ac am eu presenoldeb ar y cae yn ystod y dydd. Bu nifer o bobl yr ardal yn llwyddiannus iawn gyda'r anifeiliaid ac yn y babell gyda'r wobr am y ceffyl gorau ar y cae yn mynd i Heather a Nula Ellis-Jones. Dewisodd y Llywyddion ddafad o eiddo Teulu Frongoy Pennant i fod yn enillydd Cwpan coffa Davies y Fron i'r anifail gorau ar y cae.

Hoffai y pwyllgor ddiolch i bawb am bob cymorth i wneud y diwrnod yn un llwyddiannus.

### Dathliad Dwbwl

Fel y gŵyr rhai ohonoch, priodwyd Meinir Elenid, merch Heulwen a'r diweddar David George Lewis, Deiniol, â Huw Euron, ( Darren o Bobl y Cwm ) mab Heulwen a'r diweddar Ieuan Jones, Caerffili, ar ddiwrnod o haf bendigedig ddydd Iau Gorffennaf 22ain.

Y lleoliad oedd capel Minny Street Caerdydd a gwasanaethwyd gan y Parch Owain Llŷr a'r Parchg Morris Pugh Morris, cyn weinidog Meinir.

Cyflwynwyd y briodferch gan ei mam, yn edrych tu hwnt o dlws mewn ffrog laes o liw hufen, gyda'i morwynion mewn lliw glas hyfryd — ei ffrind Rhian, ei chwaer yng nghyfraith Angharad, a nith i'r priodfab, Mali. Mr Gethin Roberts, ffrind, oedd y gwas priodas, a Jonathan Lewis, brawd, yn un o'r pedwar o ystlyswyr.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng ngwesty'r Fro, Hensall, Morgannwg, yng nghwmni perthnasau a ffrindiau.

Gohiriwyd y mis mêl i Las Vegas a Mexico, tan yr wythnos wedi yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynebwy, pryd yr



ennillodd Huw yr unawd bâs dros 25 oed. Galluogwyd hyn iddo gystadlu am y rhuban glâs yn ddiweddarach yn yr wythnos., pryd yr oedd eto yn fuddugoliaethus.

Hyn oedd yr achos i'r dathliad dwbwl, a phawb yn hapus iawn dros y pâr ifanc. Llongyfarchiadau mawr iddynt gyda chofion cynnes yr ardal. Dymunwn iddynt briodas dda, a hapusrwydd yn eu bywyd priodasol, a boed eto lwyddiant i Huw Euron ym myd y canu.

Pob bendith i chi Mr a Mrs Jones.

Shân, sef Amser Justin Time. Mae Nerys yn aelod o grŵp marchogaeth Cadfarch a maent yn codi llawer o arian yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwahanol elusennau. Yn y llun gwelir Shân Cothi yn arwain Glenwen Morgans, Lewis a Haf Morgans, Karen Maloney a Meleri Morgan ar y daith.

### Sioeau

Cafodd Dafydd Morris, Neuadd Parc, y fraint o feirniadu y Cobiau yn Sioe Frenhinol yr Alban ddechrau yr haf. Mae teulu Troedrhiwceir hefyd wedi bod yn brysur iawn yn cefnogi y sioeau lleol yn ystod y tymor ac wedi cael nifer o wobrau.

### Taith y Porthmon

Bu Nerys Daniel ac Angharad Spence-Wilson a nifer o aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Trisant yn cymryd rhan yn Taith y Porthmon ar S4C. Cawsant ddiwrnod wrth eu bodd yn helpu i gerdded y defaid o Garth Fawr, Lledrod i Bontargamddwr Tregaron. Llwyddodd Clwb Trisant i godi £4530.00 ar gyfer Apêl Harri Rattray i L.A.T.C.H. Ysbyty Caerdydd trwy fynd ar gefn beic o Dregaron i Aberystwyth. Cafwyd cwmni nifer o ffrindiau i'r Clwb ar y daith ac mi roedd oedran y beicwyr yn amrywio o 10 oed i dros 60. Diolch i bawb am y gefnogaeth.

### Digwyddiadau

Dydd Sul Medi 19: Taith gerdded gyda helfa drysor i blant yn dechrau ger y Ganolfan Groeso yng Nghwmrheidol. Elw i Sioe Capel Bangor a'r Cylch. Am fwy o fanylion ffoniwch 01970 880691.



## TREFEURIG



### Merch o Gwmerfyn yn Lywydd Cymdeithas Gymraeg Sheffield

Ddechrau'r haf clywyd Menna Yarwood, (Lewis gynt o Gwmerfyn), yn siarad gyda Jonsi ar y radio. Menna yw Cadeirydd Cymdeithas Gymraeg Sheffield am dymor o ddwy flynedd. Mae'r Gymdeithas yn dathlu eu canmlwyddiant eleni - gweler http://www.sheffieldcambrians.org/

Clywsom fel y bu iddi hi a'i gŵr Jack ( a briodwyd yn Awst 1964) ymfudo i Ottawa yng Nghanada ym 1964 pan gafodd Jack — oedd wedi gwneud Ph.D yn Aberystwyth — swydd gyda'r National Research Laboratory yn Ottawa. Bu eu cysylltiad â Chymdeithas Gymaeg Ottawa lle buont yn dathlu Gŵyl Ddewi mewn cinio ym Mawrth 1965 o gymorth iddynt setlo yno er mai ond blwyddyn fuont cyn symud i Iowa yn Unol Daleithiau'r Amerig.

Yr oedd yna bryder mawr y pryd hynny am bobl ieuanc a oedd wedi graddio mewn gwyddoniaeth ac yn gadael eu gwlad i chwilio am swydd. Felly fe gawsant gynnig ysgoloriaeth i ddychwelyd ac yn ôl y daethant. Blwyddyn yn Norwich ac yna i fyny i Brifysgol Durham yn mis Medi 1967. Buont yno a magu tair merch (mae un — Bethan - wedi mynd yn ôl i fyw yno). Ym 1994 dyma symud i Sheffield lle roedd Jack wedi cael swydd ym Mhrifysgol Hallam fel Cyfarwyddwr y Materials Research Institute . Mae Jack wedi ymddeol bellach a bydd Menna yn ymddeol y flwyddyn nesaf — mae'n gweithio fel Rheolwraig yn Adran Gwnsela a Seicotherapi y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Aeth y ferch hynaf i fyw i Wisconsin ac mae ganddi bedwar o blant ac mae'r ferch ieuengaf yn byw yng Nghaer gyda 2 o blant.

Bodlonodd Menna ar fod yn Gadeirydd y Gymdeithas Gymraeg yn Sheffield (sydd a 98 aelod) am y ddwy flynedd olaf yma am iddi werthfawrogi gymaint gael y cysylltiad gyda Chymry eraill oddi cartref. I ddathlu y canmlwyddiant bu i'r Gymdeithas drefnu cyfres o ddarlithoedd cyhoeddus ym Mhrifysgol Sheffield ar ddyfodol y Deyrnas Unedig gyda gwleidyddion ac arbenigwyr o'r pedair gwlad. Traddodwyd y gyntaf gan Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan , cyn Brif Weinidog Cymru ar 10 Fawrth 2010.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lisa Healy, Maes Meurig a raddiodd o'r Arden School of Theatre, Manceinion. Dymuniadau gorau iddi yn ei gyrfa — bydd i'w gweld yn cymryd rhan ym mhantomeim Martyn Geraint cyn y Nadolig — *Martyn Geraint a'r lamp hudol*. Bydd yng Nghanolfan y Celfyddydau ar Ragfyr 1af a gwelir Lisa ar eu poster hefyd.

### Pen blwydd hapus

Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu oll i Mrs Marion Jones, Nantlais ar ei phen blwydd arbennig yn 90 mlwydd oed ar 28ain o Fedi.



Y rhai fu yn ymwneud â Murlun Bro Trefeurig Uchaf - gweler Tincer Mehefin 2010 a http://www.trefeurig.org/

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

### Suliau Madog

2.00
3 Bugail
10 Oedfa'r Ofalaeth — bore yn y Garn
17 Bugail
24 John Tudno Williams
31 G. Macdonald

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gethin Howells, Tŷ Capel, Capel Madog, ar ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Ffisioleg Clinigol (gan arbenigo mewn Cardioleg) o Brifysgol Abertawe. Tra'n aros am ei ganlyniadau, yn lle cymryd hoe fach cyn cychwyn ar swydd newydd yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd, penderfynodd feicio o Land's End i John O'Groats. Mae'r mwyafrif o feicwyr yn cymryd deng niwrnod i bythefnos i gwblhau'r sialens ond gwibiodd Gethin i ben y daith mewn chwe diwrnod. Tipyn o gamp! Dymunwn bob lwc iddo yn ei swydd newydd a gobeithio y bydd yn mwynhau byw ym mwrlwm y brifddinas.

### Croeso

Croeso i Llywelyn a Sioned Evans i Rhydyceir.

### Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Meirion Davies, Llwyngwyddil.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dai Powell, Nantybwla, ar golli ei frawd — Gwilym Powell o Lan-non.

### Croeso

Croeso i Jemma Teleri, merch Paul a Dawn, Llangwyryfon ac wyres i Dai a Lyn, Deilyn.

### Llwyddiannau

Llongyfarchiadau i'r rhai fu'n cystadlu ac yn llwyddiannus yn y sioeau dros yr haf, teulu Deilyn, Aled Llŷr, Rheinallt a Llŷr Jones.

### Swyddi a choleg

Llongyfarchiadau i'r bobl ifainc yr ardal a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau a dymuniadau da iddynt yn eu gyrfaoedd newydd neu wrth ymadael i'r coleg.

i Mared Hughes, Gwarcwm Hên yn ei swydd fel cynorthwyydd dosbarth yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont;

i Jessica Binks, Trysor, sydd wedi cael swydd dysgu Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Gyfun Morgan Llwyd, Wrecsam;

i Carwyn Thomas, Bronheulog, am gwblhau a phasio'r cwrs gyda'r frigad dân;

i Gwenno Davies, Llwyngwyddil, sydd yn dechrau cwrs iechyd a diogelwch yng Ngholeg Ceredigion.



### Gwraig leol yn cipio gwobr Her Gyfieithu 2010

Mewn seremoni arbennig ar faes Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a'r Cymoedd fe gyhoeddwyd mai Marged Haycock, Gwarcwm, fu'n fuddugol yn yr Her. Roedd hi'n un o drideg chwech aeth ati i drosi darn o stori fer, La folie était venue avec la pluie, o'r Ffrangeg gan awdur o Haiti, Yanick Lahens.

Cyflwynwyd Marged â Ffon y Pencerdd 2010 gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones AC, yn ystod y seremoni ym mhabell Prifysgol Aberystwyth. Roedd y testun gosod yn gyferbyniad llwyr i waith academaidd Marged sy'n arbenigo mewn llenyddiaeth Gymreig yr Oesoedd Canol ond fe benderfynodd fynd ati i gystadlu am ei bod â diddordeb byw yn y sefyllfa yn Haiti ac am ei bod yn medru unieithu â'r awdur gwreiddiol - Yanick Lahens - sydd yn wraig ac yn academydd fel hithau. Yr awdur, Patrick McGuinness , a'r dramodydd a'r llenor Gareth Miles oedd beirniaid yr Her ac wrth draddodi'r feirniadaeth dywedodd Mr Miles fod safon y gystadleuaeth yn uchel iawn.

Sefydlwyd yr Her Gyfieithu yn 2009 gan Dŷ Cyfieithu Cymru i hyrwyddo a dathlu'r cyfraniad gwerthfawr gan gyfieithwyr i'r gwaith o hyrwyddo llenyddiaeth Cymru dramor.

Wrth dderbyn y wobr dywedodd Marged Haycock, "Roedd y testun ddewiswyd ar gyfer yr Her yn ysbrydoledig. Roeddwn yn teimlo ei fod yn werth ei gyfieithu. Hyd yn oed cyn y daeargryn roedd Haiti yn wlad mor dlawd, wedi ei distrywio a mae Yanick Lahens yn llwyddo i gyfleu'r awyrgylch a'r ofn ymhlith rhai yno mor fanwl -mae ei gwaith yn wefreiddiol."

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn
CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y
gorau ym Mhrydain

# GOGINAN

### Llongyfarchiadau

Braf yw cael llongyfarch Mike a Morfudd Ingram, Llygad y Glyn, ar enedigaeth eu hwyres Ffion Haf ar ddechrau'r haf.

### Pen blwydd Arbennig

Roedd Lee Evans yn dathlu ei ben blwydd yn ddeunaw ar Medi 11. Pen blwydd hapus iawn iddo a phob lwc i'r dyfodol.

### Cydymdeimlo

Trist yw cofnodi marwolaeth John Roberts, Penbryn, canol Gorffennaf. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i deulu oll.

### Carreg Filltir

Yn ystod mis Awst fe ddathlodd dau o frodorion yr ardal ben blwydd arbennig. Huw Jones, Hafan, Cwmbrwyno a Val Evans, Gwarllan yn cyrraedd hanner cant. Nawr an yr hanner cant nesaf!

### Mae'r Byd yn Fach

Bu Ian a Rosemary Sant ar eu gwyliau gyda'u merch Sally, eu mab yng nhyfraith Mark a'u hwyres Rosalie yn y Pyrenees. Roeddent wedi teithio i'r ardal i wylio'r "Tour de France" ac un bore pan yn mynd am dro i'r mynyddoedd ger Lac de Suyen fe glywodd Sally rhywun yn siarad Cymraeg (roedd Sally wedi cael ei addysg cynnar yn Ysgol Pen-llwyn ac o'r herwydd yn deall Cymraeg) felly dyma hi yn dweud Bore Da wrth y cwpwl, a dyna syndod wrth sgwrsio sylweddoli mae Bethan Williams gynt Bebb ( a anwyd ym Mlaendyffryn o fewn milltir i gartref Ian a Rosemary Sant, Ravensclough) a'i gŵr Dafydd oedd y ddau. Cafwyd sgwrs wedyn am newyddion lleol.



Rhiannon Edwards, Capel Bangor yn arwain a Laura Jones Williams, Goginan yn marchogaeth, yn ennill cystadleuaeth ' Arwain a Marchogaeth' yn Sioe Pontrhydfendigaid.



Llun o deulu Sant gyda Bethan a Dafydd – yn anffodus roedd Ian tu ôl i'r camera

## ER COF AM JOHN ROBERTS, PENBRYN, GOGINAN

Yn Ysbyty Bron-glais fore Sadwrn, 10 Gorffennaf, gyda'i blant wrth ei ochr, bu farw'r ffermwr gwydn John Roberts, Penbryn, yn 86 mlwydd oed. Bu'n briod cariadus i Rosina (m. 1993) am 48 mlynedd, yn dad cefnogol i'w blant Gwyn (m. 1990), Eluned, John Erfyl, Olwen, Arwyn ac Idloes, ac yn daid a hen-daid caredig i 10 ŵyr/wyres a 9 gor-ŵyr/gor-wyres.

Ganed John Roberts ar dyddyn Cringoed Bach ar gyrion Cwm Nant yr Eira, sir Drefaldwyn, ac roedd mwynder nodweddiadol trigolion y sir yn rhan annatod o'i bersonoliaeth. Yn 14 oed, gadawodd ysgol gynradd yr Hafod, Llanerfyl, gan gychwyn gwasanaethu ar fferm leol y bore canlynol. Trin tir ac anifeiliaid a wnaeth wedyn gydol ei oes, a hynny mewn sawl cymdogaeth yn sir Drefaldwyn, cyn ymsefydlu ar fferm Penbryn yn 1956.

Roedd yn ffermwr cydnerth a wasanaethodd bob meistr tir yn ffyddlon ac yn ddi-arbed gydol ei fywyd. Magodd gryn brofiad wrth drin ceffylau gwedd yn ystod blynyddoedd ieuenctid cyn troi at y tractor, a bydd gan gyfeillion ardaloedd Goginan a Phen-llwyn lu o atgofion amdano'n gyrru ei dractor i bob man, ym mhob tywydd!

Er iddo dderbyn sawl llawdriniaeth yn ystod deng mlynedd olaf ei fywyd, goroesodd bob un ohonynt yn rhyfeddol o lwyddiannus. Mynnai adfer ei egni a'i nerth bob tro er mwyn parhau i ddilyn crefft amaethu, er iddo gyrraedd oed ymddeol ers blynyddoedd! Ac yntau'n fab y pridd o'i gorun i'w sawdl, priodol oedd iddo gael ei ddwyn oddi wrth ei deulu tra dilynai'r ddiadell ddefaid yng nghwmni ei feibion Arwyn ac Idloes.

Roedd gan gapel bach y Dyffryn, Goginan, le cynnes iawn yn ei galon, ac roedd llawenydd ei ffydd yn llywio ei gerddediad. Yno yr ymgasglodd tyrfa gref ddydd Sadwrn, 17 Gorffennaf, yn dystiolaeth i barch a chariad didwyll cymdogaeth eang tuag at y ffermwr cymwynasgar hwn. Yn dilyn y gwasanaeth a arweiniwyd gan y Parchg Ifan Mason Davies, a gyflwynodd hefyd deyrnged hardd a phregeth rymus, rhoddwyd corff John Roberts i orffwys yn y fynwent leol. Wrth ddiolch i Dduw am ffermwr gwydn, cymydog da a Christion llawen, cydymdeimlir yn ddwys gyda'i blant a'u teuluoedd yn eu galar a'u hiraeth am benteulu tirion a chadarn.


CLWB CŴL
Penrhyn-coch
Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£5 y sesiwn . £4 ail blentyn
Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig
Clwb Gwyliau
Mae'r clwb hefyd ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS
08.30 y.b. – 5.30 y.p.
£18 y diwrnod plentyn cyntaf
£16 y diwrnod ail plentyn
Sesiwn hanner diwrnod
08.30 – 1.00 y.p. neu 1.00 y.p. – 5.30 y.p.
£9 plentyn cyntaf . £8 ail plentyn
I fwcio cysylltwch â
Nicola Meredith neu Katy Nash ar
07972 315392
clwbcwl@googlemail.com
Neu cipiwch mewn i'r clwb ar ôl Ysgol
Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan, Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!

# PENRHYN-COCH

## Suliau Hydref

**Horeb**

3 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
10 10.00 Oedfa unedig yn Egwlys Sant Ioan
17 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
24 10.30 Oedfa bregeth Adrian Morgan
31 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

**Salem**

3 2.00 Y Parchedig Richard H Lewis — Cymundeb
10 10.00 Bethel, Tal-y-bont — Cyfarfod Diolchgarwch Undebol (plant)
17 2.00 Miss Beti Griffiths
31 10.00 Y Parchedig Richard H Lewis — Cymundeb

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 13 a 27 Hydref. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.



Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elin Mair, merch Richard a Mair Jenkins, Cwmbwa, a Patrick, mab Mrs Susan Fuller a'r diweddar Mr J.Fuller, Llundain a briodwyd ar y 7fed o Awst yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch.



Gareth McEwan Reid, mab i Anne a Kenneth McEwan Reid, Bronsaint, Penrhyn-coch a gafodd ei ordeinio fel curad yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi mis Mehefin. Mae Gareth yn ŵyr i Mary Thomas gynt o Bronsaint, Capel Dewi. Bydd Gareth yn gweithio o'r Eglwys Gadeiriol a hefyd fe fydd yn edrych ar ôl tair eglwys arall yn yr ardal. Mae Gareth yn briod â Abby ac mae merch fach o'r enw Sophie ganddynt. Mae nhw nawr wedi ymgartrefu yn Y Vicarage, Whtichurch, Solfach ger Hwlffordd.

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Rhys Davies (Tan-y-berth gynt), mab Royston a Prysorwen Davies, a Catrin, Cae'r Wylan, Aberystwyth ar eu dyweddiad ar Awst 18fed

## Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Mair Davies, Meurig Cottage ar ddod yn nain. Ganwyd merch fach — Elliw Hywel - i Ellen a Hywel, Tregarth ar 13eg Awst. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau i Non a Colin Evans, Refail Fach,ar ddod yn fam-gu a thad-cu eto. Ganwyd mab — Jac, brawd i Nel, i Lisa a Rhys Davies yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau i'r teulu bach fydd yn symud i Gaernarfon cyn bo hir lle bydd Rhys yn parhau â'i waith fel deintydd.

## Diolch

Hoffai Gillian Dobson ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod cyfnod ei salwch.Gwerthfawrogwyd yn fawr yr holl gardiau, rhoddion,galwadau ffôn a'r ymweliadau cyson. Bu'r cyfan yn gysur mawr.

## Gwasanaeth Iachau

Cynhelir Gwasanaeth Iachau dwyieithog fel rhan o Taith Dewi yn Horeb nosWener 8 Hydref. Am fwy o fanylion cysyllter â'r Parhg Judith Morris 820939.

## Arholiadau

Llongyfarchiadau i Manon Reynolds, Ger-y-llan ar ei chanlyniadau lefel A gwych a dymuniadau gorau ar y cwrs yng Ngholeg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin.

Llongyfarchiadau i Trystan Davies, Glan Ceulan ar raddio gyda dosbarth cyntaf ym Mhrifysgol Aberystwyth.

i Lisa Jones, Bod Organ ar raddio gyda dosbarth cyntaf ym Mhrifysgol Dewi Sant y Drindod, Caerfyrddin. .

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Helga a Daniel Huws a'r teulu, Tyddyn Seilo, ar farwolaeth mam Helga yn yr Almaen ddiwedd Gorffennaf yn 101 oed.

## Urdd Gwragedd Sant Ioan

Dechreuwyd tymor newydd Urdd y Gwragedd nos Lun Medi 6ed gyda dathliad o'r Cymun Bendigaid yn cael ei weinyddu gan y Parchedig Ronald Williams, Bow Street yn absenoldeb y Parchg John Livingstone. Cafwyd swper ysgafn i ddilyn yn Neuadd yr Eglwys a siawns i bawb ymaelodi a sôn am y rhaglen sydd i ddod yn ystod y tymor. Y swyddogion yw Edwina Davies, Llywydd Mair Jenkins, Ysgrifennydd ac Elsie Morgan, Trysorydd.

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Rhian Dobson,Cae Mawr, ar ei dyweddiad â Iwan Gareth (Ffestiniog a Bangor).

## Salwch

Deallwn fod yna amryw yn yr ardal wedi bod yn achwyn yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan i'r canlynol a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Henry Thomas, Cwmfelin; Eddie Evans, Gwawrfryn; Mona Edwards, Hafod; Mrs Barnard, Glanceulan; Hugh Jones, Panteg; Gillian Dobson, Cae Mawr.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Megan a Peter Tooze, Dôl Helyg, ar enedigaeth bachgen bach, Dylan Jac ar y 10fed o Awst, ac i'r tad-cu a mam-gu ar y ddwy ochr sydd yn dathlu'r achlysur arbennig yma.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Elinor Thorogood, Glanceulan am ei llwyddiant unwaith eto wrth iddi ddod yn ail yn Triathlon Llundain yn ddiweddar. Mae yn paratoi yn awr i fynd i Singapore yn rhan o dîm ieuenctid Prydain i gymryd rhan yng Ngemau Olympaidd Pobl Ifanc. Gwych! Dymunwn yn dda iddi yn y fenter hon.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu Julie a Tony Davies, 10 Tan-y-Berth ar golli tad Julie yn ddiweddar. Hefyd Mair Evans a'r teulu, Glanceulan, a gollodd ei chwaer yng nghyfraith o Bont-rhyd-y-groes yn ddiweddar.

## Gardd Gymunedol

Mae'r ardd wedi bod yn ei holl ysblander yn ystod yr haf eleni eto, gyda'r holl blanhigion erbyn hyn wedi sefydlu ac yn hapus yn ei lle. Diolch i'r gwirfoddolwyr sydd wrthi yn gofalu am yr ardd yn gyson.

## Sioe Penrhyn-coch

Cafwyd sioe lwyddiannus iawn eleni eto. Ein llywyddion y tro hwn oedd Auriel a Dai Evans, Bow Street. Diolch iddynt am eu gwaith a'u haelioni at y sioe. Hefyd diolch i'n hysgrifennydd Ann James a'i chriw ffyddlon am yr holl waith paratoi ac am eu gwaith ar ddiwrnod y sioe. Bu yna hefyd gystadlu brwd fel arfer a diolch i bawb am eu cyfraniad ym mhob modd.

# LLANDRE

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Nicola a Iolo Jones, gynt o Landre, ar enedigaeth eu merch, Violet Haf, ym mis Gorffennaf, wyres fach i Danny ac Irene Parry, Comins-coch. Dymuniadau gorau i'r teulu.

## Brysiwch wella

Dymuniadau gorau i Marianne Jones Powell, Leacroft gafodd driniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Bron-glais ar ôl torri ei chlun yn dilyn cwymp gartref.

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Buddug Thomas, Maes Afallen a Gwenno ac Owen Watkin a'r teulu, Maeshenllan ar golli gŵr, tad a thad-cu arbennig, sef Bill Thomas, Troed y Bryn.

â Erddyn James a'r teulu, Taigwynion ar golli brawd yng Nghaer-wynt (Winchester).

â Diana a Huw Ceiriog Jones, Nant y mynydd, ar farwolaeth brawd yng nghyfraith Diana ddiwedd Gorffennaf.

â Hazel Pitt a Margaret Sheen, Maesyrhedyn, Lôn Glanfred ar golli eu brawd yn Awstralia y mis diwethaf.

ac â Llinos, Morfudd ac Eluned a'u teuluoedd ar golli eu mam a'u tad yn ddiweddar, Y Canon Dewi ac Anna Thomas, Rhydaman. Bu'r Canon Dewi Thomas yn ficer yn Llandre am nifer o flynyddoedd.

## Cymrodor

Llongyfarchiadau i Moss Jones, Goleufryn, Taigwynion, ar dderbyn Cymrodoriaeth Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru fel cydnabyddiaeth o'i gyfraniadau er budd cydweithio ym myd amaethyddiaeth.

## Sefydliad y Merched Llandre

Cafwyd cyfarfod egniol iawn yn ystod mis Ebrill pan roddwyd cyfle i'r aelodau ymarfer dawnsio o dan arweiniad Maggie Townsrow sydd yn 'tap dancer' broffesiynol. Cafwyd hwyl a mwynhad mawr yn ystod y noson ac er na wnaeth ymarfer wneud yn berffaith y tro hwn, dysgodd yr aelodau nifer o symudiadau newydd ac roedd lluniaeth ar y diwedd yn dderbyniol iawn.

Wedi gohirio cyfarfod mis Mai am bythefnos oherwydd yr etholiad roedd yn amlwg yn werth yr aros i wrando ar Mr Gerald Morgan a ddaeth atom i siarad am 'Y Cardi a'r Môr'. Cafwyd amlinelliad o fywyd yn y cyfnod pan oedd mynd i'r môr yn alwedigaeth bwysig i'r rhai oedd yn byw yn ein trefi a phentrefi arfordirol. Clywsom am y niferoedd uchel o farwolaethau ar y môr o longddrylliad a hefyd o afiechydon ac effaith hyn ar y cymunedau lleol. Gwelsom sleidiau diddorol o Aberaeron, Aberystwyth ac Aberteifi i ddisgrifio'r ddarlith.

Mrs Kathleen Martin ddaeth i siarad ym mis Mehefin. Fel aelod o'r ACCWW mae hi wedi teithio i Mongolia i gynghori merched ar ddulliau o wella cynhyrchu ffelt sydd yn cael ei wneud o wlân geifr a defaid gan y merched lleol. Prif bwrpas y gwaith oedd gwella ansawdd y cynnyrch ar gyfer y farchnad a chyfrannu at fwy o annibyniaeth iddynt, hefyd i gynghori ar sefydlu busnesau bach. Disgrifiodd inni sut oedd wedi byw mewn 'yurt' ac am y gymdeithas wledig. Bu hefyd yng Ngweriniaeth De Affrica yn byw mewn pentrefi gwledig i ddysgu'r merched sut i ddefnyddio peiriant gwnïo i drin cotwm ar gyfer creu defnydd ar gyfer y farchnad.

Ar yr 8fed o Orffennaf aeth aelodau'r Gymdeithas gydag aelodau Cymdeithas Bow Street ar daith i'r Bala. Roedd tair ar hugain o aelodau i gyd a chafwyd lluniaeth yn yr orsaf yn Llanuwchllyn cyn mynd ar y trên i'r Bala. Roedd y daith o ugain munud ar y trên bach wrth ochr Llyn Tegid yn atgof ynddi ei hunan o'r dyddiau pan oedd bywyd yn llawer arafach. Wedi cinio ym Mhlas y Dre cafwyd amser i siopa yn y Bala cyn dychwelyd ar y trên i Lanuwchllyn ac yna i Landre.

## Diolchgarwch Bethlehem

Oedfa Diolchgarwch, Bethlehem Llandre, nos Iau Hydref 14, 2010 am 7.00 o'r gloch. Pregethir gan y Parchg Eifion Roberts.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gilbert a Linda Jones, Llys Newydd, ar enedigaeth eu ŵyr cyntaf. Ganed bachgen bach i Dylan a'i wraig yn yr Amwythig.

Llongyfarchiadau i Gareth a Sue, Aberceiro, ar enedigaeth wyres arall. Ganwyd merch fach i Ben a'i wraig.

## Newid aelwyd

Croeso i Mr a Mrs Billington sydd wedi symud i Lys Dyfed a dymuniadau gorau i Mr a Mrs Miles sydd wedi symud i Rhos Hendre.

## Ysbyty

Dymuniadau gorau i Angela Wise, Fronhaul sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ystod yr haf.

## Priodas aur

Llongyfarchiadau i Gwenda ac Erddyn James, Taigwynion, a ddathlodd eu priodas aur yn ystod yr haf..

# CLWB GOLFF Y BORTH AC YNYS-LAS

Mae wedi bod yn haf brysur i Adran Iau y Clwb, yn dechrau gyda cystadleuaeth Agored yr Oedolyn/Iau gyda dros 38 o gwpledi yn cymryd rhan. Canlyniadau: 1af, Dylan Roberts a Tomos Wyn Roberts 43pwynt (9 cefn); 2il, Richard Lucas a Mathew Lucas 43 pwynt; 3ydd Des Roberts a Jordan Roberts 42 pwynt; 4ydd, Eilyr Morgan a Sion Ewart 41 pwynt (9 cefn); 5ed, Keith Morris a Gwenno Morris 41 pwynt. Agosaf at y pin: Anna Dyer a Bryony James. Drive hiraf Owen Lawrence a Daniel Basnett. Mi fydd Dylan a Tomos yn mynd ymlaen i chwarae yn rownd derfynol y John Collins A/J Foursomes i'w chwarae yng Nghlwb Golff Morgannwg ym Mhenarth ar ddydd Sul 26ed Medi. Pob lwc i'r ddau ohonynt.

Cynhaliwyd Cystadleuaeth Agored Aled Humphries ym mis Gorffennaf gyda bron i 100 o bobl ifanc yn cymryd rhan. Canlyniadau: 1af, Anthony Wyn Jones (Aberystwyth) 71:8:63; 2il, Steffan Davies (Caerfyrddin) 79:15:64; 3ydd, Rhys Watkins (Glyn Abbey, Trimsaran) 79:14:65. Gross gorau: Nick Rees (Glyn Abbey) 72.

Cystadleuaeth Stableford: 1af, Jordan Roberts (Y Borth) 41 pwynt; 2il, Chris Davies (Y Borth) 39 pwynt (9 cefn); 3ydd, Sion Clifton (Y Borth) 39 pwynt.

Cystadleuaeth 36 ergyd: 1af, Ffion Wyn Roberts; 2il, Lisa Ewart; 3ydd, Sophie Evans.

Mae'r "Welsh Mini Minors" yn gystadleuaeth agored i chwaraewyr sydd heb ymuno â chlwb golff neu wedi ymuno yn ddiweddar ond heb "handicap" ar hyn o bryd. Cynhaliwyd rowndiau cymhwyso mewn chwech gwahanol leoliad trwy Gymru gyfan, ac ar y 25ain o Awst aeth Ffion Wyn Roberts, 11 oed a Lisa Ewart, 8 oed, aelodau ar gwrs ymarfer y Clwb i fyny i Machynlleth i gymryd rhan yn rownd gyntaf y gystadleuaeth. Roedd y merched yn chwarae dros 9 twll ar gwrs byr yng Nghlwb Machynlleth. Lisa oedd yr enillydd yng nghategori y merched 8-11 oed gyda Ffion Wyn yn ail. Mae'r ddwy yn mynd trwyddo i'r rownd derfynol sydd yn cael ei chynnal yn y Celtic Manor ar 26 Hydref. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddwy. Da iawn chi.

Dros wyliau'r haf bu yr Adran Iau yn ymweld â llawer i gwrs gwahanol a chystadlu mewn sawl cystadleuaeth agored megis Harlech a Cilgwyn.

Dewiswyd Angharad Basnett i gynrychioli Cymru yn Nghwpan Iau Evian Masters yn y Swistir, cystadleuaeth wedi ei noddi gan Evian yn benodol i gefnogi, hybu a datblygu golff i bobl ifanc. Da iawn ti.



# BOW STREET

### Suliau Hydref

Capel y Garn
10 a 5
http://www.capelygarn.org/
10 Bugail Irfon Evans
10 Oedfa'r Ofalaeth 10
17 Bugail

24 John Tudno Williams Noddfa yn y bore
31 Rh. Griffiths G. Macdonald

### Swydd newydd

Dymuniadau gorau i Anwen Pierce, Bryncastell, sydd newydd ddechrau yn ei swydd newydd yn adran olygyddol y Cyngor Llyfrau.

### Newid aelwyd

Trist yw ffarwelio â Carol Davies ac Eifion Evans, o Bryncastell, a dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd yn Llanwnnen.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhun Gwynedd a Magdalena, ap Robert, Caerdydd ar enedigaeth mab, Ioan Rhun ganol mis Awst.

### Telynorion talentog

Llongyfarchiadau i Helen Naylor—merch y Parchg Ronald ac Ann Williams, Maes-y-garn, - daeth ei disgyblion Telynorion Cwm Derwent o Derby yn drydydd yn y gystadleuaeth Grŵp offerynnol neu offerynnol a lleisiol yng Nglynebwy.

### Anrhydedd

Anrhydeddwyd un o feibion yr ardal, sef Llywelyn Evans (Caergywydd gynt) yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd eleni. Dyrchafwyd ef yn Gymrawd Cymdeithasau Brenhinol Amaethyddol Prydain am ei wasanaeth hirfaith i Amaethyddiaeth ac am ei gyfraniad arbennig i Addysg Amaethyddol. Bu'n bennaeth ar Adran Amaethyddol, Garddwriaethol ac Amgylcheddol Coleg Meirionnydd am dros bum mlynedd ar hugain. Bu ganddo ran allweddol yn sefydlu Cymdeithas Tir Glas Meirionnydd gan lenwi swydd ysgrifennydd am flynyddoedd lawer. Mae'n Is-lywydd Anrhydeddus y Sioe Frenhinol ac yn ysgrifennydd i Bwyllgor Ymgynghorol Meirionnydd ers 1990. Gwelwyd ef wrth ei waith eleni eto yn y Sioe fel Prif Stiward Adrannol. Llongyfarchiadau Llew a dal ati!

### Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Vernon Jones, Gaerwen,ar ennill ar y gerdd gaeth hyd at 50 llinell yng Nglynebwy. Mae'r gerdd 'Arwr' i'w gweld yn y *Cyfansoddiadau a beirniadaethau*. Hefyd i Nest Gwilym, Caerdydd, merch WJ a Gwenda Edwards, ar ennill am gyfieithu un o ddramâu Harol Pinter i'r Gymraeg, a Geraint Davies, Casnewydd, mab Ken a Jane Davies, Maes Ceiro ar Gyfansoddiad i achlysur arbennig ar gyfer band pres neu ensemble pres yn yr Adran Gerddoriaeth.
Cafwyd sesiwn 'Dwyn i gof' yn y Babell Lên hefyd gan y Parchg W.J.Edwards lle bu yn edrych yn ôl ar ddigwyddiadau a phersonoliaethau y blynyddoedd a fu.


### Adnewyddu llwon

Fis Awst eleni, yn ystod eu gwyliau ym Mhatagonia, trefnodd Gwenith ac Emyr John i adewyddu eu haddunedau priodas yng Nghapel Bethel, y Gaiman, gyda'r Parchedig Tegid Roberts yn gweinyddu. Treuliodd Gwenith a'r ddwy ferch fach, Gwen a Sara, flwyddyn yn byw yno yn 2007, pan oedd hi'n athrawes Gymraeg yn Nyffryn Camwy, ac ymunodd Emyr â hi dros fisoe dd olaf y flwyddyn honno. Mae Emyr, Gwenith a'r teulu newydd symud o stâd Bryncastell, lle cafodd Gwenith ei magu, i fyw yn Aberystwyth. Dymunwn yn dda iddyn nhw yno ac i Emyr sydd newydd ddechrau ar eiswydd newydd fel pennaeth Ysgol Gynradd Aber-porth..



Llywelyn Evans yng nghwmni'r Arglwydd Elystan-Morgan ar faes y sioe.





### Ymweliad Parti Merched y Gaiman â Chapel y Garn

Fore Sul, Gorffennaf 18fed, cafwyd oedfa ddeuol yng Nghapel y Garn, ac roedd nifer yr oedolion a phlant yr ysgol Sul a ddaeth ynghyd yn adlewyrchu'r diddordeb yn yr achlysur. Yn gyntaf, bedyddiwyd Gwawr Eluned, merch fach Delyth a Rheinallt Morgan a chwaer Teleri a Glesni, sydd eu dwy yn aelodau ffyddlon iawn o'r Ysgol Sul. Yn ail croesawyd Parti Merched y Gaiman, Patagonia, gyda'u harweinydd Edith MacDonald i'r oedfa. Tynnodd y Parchedig Wyn Morris ein sylw at y ffaith fod John Morgan, Pwllglas, hen-hen ewyrth Gwawr Eluned a brawd i weinidog cyntaf eglwys y Garn, yn un o deithwyr y Mimosa ar y daith arloesol ym 1865.

Agorodd Cantorion Cyd Aberystwyth ran gerddorol yr oedfa gyda dwy garol haf, dan eu harweinydd Brenda Williams.





Hannah Jenkins, merch Non a John Jenkins, Maes Afallen, a Guto Roberts, Rhiwlas, ger Bangor a briodwyd ar y 3ydd o Orffennaf yn Peterstone Court, Llanhamlach, ger Aberhonddu. Dymuniadau gorau i'r cwpl sydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

# DOLAU

Er fod y naill garol yn dyddio o'r 18fed ganrif a'r llall o'r 19eg roedd y ddwy yn hynod gyfoes gan eu bod yn cyfeirio at yr angen i bobl rannu adnoddau'r ddaear â'i gilydd er mwyn gallu cyd-fyw mewn heddwch â'i gilydd. Yn dilyn hynny cafwyd datganiadau swynol a chofiadwy gan ddau unawdydd o'r Gaiman, 'Iesu, Iesu, Rwyt ti'n Ddigon' ar gerdd dant gan y tenor Billy Hughes, ac 'Iesu yw'r Iôr' gan y bariton Marcello Griffiths.

Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Gladys Thomas de Hughes o'r Gaiman, a Rhun ap Robert, bellach o Gaerdydd ond a fu gynt yn aelod o Ysgol Sul y Garn. Roedd hyn eto yn tanlinellu'r berthynas agos rhwng y Cymry yn y ddwy wlad, gan fod Rhun a Billy Hughes yn feibion i ddau gyfyrder. Canodd y côr drefniant eu cyfeilydd Hector Macdonald o 'Dwy law yn Erfyn' yn ddisgybledig a chaboledig, a'r tinc bach lleiaf o ynganiad Sbaeneg ar y Gymraeg yn ychwanegu at yr hud. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Parchedig Wyn Morris yn cymharu menter teithwyr y Mimosa yn hwylio o Gymru i'r Ariannin gyda menter Abraham yn arwain ei bobl o Ur i wlad Canaan.

I ddiweddu'r oedfa canodd yr ymwelwyr weddi syber a dwys yn y Sbaeneg ac yn y Gymraeg.

Bydd hon yn oedfa a fydd yn sicr yn aros yng nghof y rhai oedd yn y gynulleidfa am flynyddoedd lawer. Roedd y bwrlwm yn y Festri dros de a choffi hefyd yn brawf bod adnabyddiaeth a chyfeillgarwch wedi eu creu o'r newydd ac wedi eu hadnewyddu hefyd yn ystod y tridiau y bu'r côr yn yr ardal hon.

### Angen dosbarthwr!

Tybed a oes gan un o bobl Bow Street awydd helpu dosbarthu'r Tincer? Mae angen rhywun i ddosbarthu copiau yn rhan isa'r pentref (o'r 'Spar' i'r 'Build Centre'). Mae'n ffordd dda o ddod i adnabod trigolion y pentre'n well, ac i sicrhau parhad y papur. Wrth wneud yr apêl am gymorth, mae pwyllgor y Tincer ar yr un pryd yn diolch yn gynnes iawn i Dinah Henley, Dôl Eglur am ei gwaith di-flino a'i hewyllys da dros nifer fawr o flynyddoedd yn dosbarthu'r papur yn y rhan hon o Bow Street.

### Mam yn mentro - creu busnes yn y cartref

Mae merch o Dolau wedi defnyddio dylanwad ei mam i gychwyn busnes yn creu anrhegion wedi eu personoli.

Arferai Sioned Hywel fynd drwy bocs gwnïo a defnyddio ei mam, Dwysli Peleg-Williams, tra byddai'n tyfu fyny. Erbyn hyn mae Sioned yn fam i dri, ac yn byw gyda'i gŵr Osian yn Llandwrog ger Caernarfon, er fod ei mam yn dal i fyw yn Dolau.

Cafodd Sioned y syniad am ei busnes tra ar gyfnod mamolaeth, ac mae yn llwyddo cael y busnes i weithio o gwmpas ei theulu, yn hytrach na'r ffordd arall.

Mae hynny'n golygu ymroi i bwytho yn y mannau mwyaf anhebyg - fel gornestau pêl-droed a gwyliau carafan gydag Osian ei gŵr a'r teulu.

Roedd Sioned wedi dyheu am gael rhedeg busnes, ond ddim ond pan oedd hi'n disgwyl ei thrydydd plentyn y gwireddwyd y freuddwyd.

Cyn yr enedigaeth, roedd hi wrthi'n clirio ei chartre yn Llandwrog, ger Caernarfon, pan ddaeth hi o hyd i focsys sgidiau yn llawn cardiau a mân bethau o adeg geni ei dau fab - Gwion, sy'n wyth oed a Meilir, sy'n bump.

Penderfynodd greu bocsys wedi'u personoli, drwy ddefnyddio croes-bwyth.

"Roedd gen i chwech o ffrindie oedd yn disgwyl 'run pryd â fi, ac felly fe wnes i focsys tebyg iddyn nhw, fel anrhegion, ac fe dyfodd pethe o hynny 'mlaen", meddai.

Wedi geni Lleucu, sy'n ddyflwydd oed erbyn hyn, 'roedd yna gymhelliad ychwanegol. "Ar ôl cael dau o fechgyn, roeddwn i am greu pethe tlws!"

Roedd hi'n sylweddoli na fyddai creu bocsys yn unig yn ddigon o sail i gynnal busnes, felly fe ddatblygodd nwyddau eraill wedi eu personoli mewn croes-bwyth - megis coflyfrau (albums), blancedi a chardiau.

Gan fod pob un wedi ei gynhyrchu'n unigol mae modd eu gwneud mewn unrhyw iaith, ac fe welodd Sioned yn syth fod yna fwlch yn y farchnad ar gyfer nwyddau Cymraeg i fabanod.

"Roedd pobol yn dechre chwilio amdana i - pobol oedd wedi derbyn anrheg oni wedi greu ac yn dod ar fy ôl i gael mwy", meddai. Daeth cwsmeriaid ymlaen gyda syniadau am nwyddau eraill wedyn, ac fe ddaeth rhai o'r rhain yn ffefrynnau, pethau fel 'llyfr brolio Nain' - albwm i neiniau sy'n gwirioni ar eu hwyrion a'u hwyresau bach.

Drwy fod yn fòs arni hi ei hun, mae Sioned yn gallu parhau i weithio dau ddiwrnod yr wythnos fel athrawes yng Nghricieth, lle mae'n cael ymarfer ei doniau creadigol drwy ddysgu celf i blant cynradd o bob oed. Ac mae gweddill ei hamser yn mynd i'r teulu....ac i'r busnes.

"Nid mater o orfodi'r teulu i ffitio mewn gyda'r busnes ydi hi, ond i'r gwrthwyneb. Rwy'n cael croes-bwytho'n waith hawdd ei wneud wrth ymlacio, yn enwedig fin nos wedi i'r plant fynd i'r gwely", meddai. Mae'r busnes 'nawr yn mynd gam ymlaen, drwy ddatblygu gwefan. "Roeddwn yn teimlo fod angen 'ffenest siop' arna i, lle gall pawb weld beth sy ar gael ac am ba brisiau", ychwanegodd.

"Falle na fydda i'n gwneud hyn am byth - ond mae'n siwtio fy ffordd i o fyw i'r dim, ar hyn o bryd.

"Rwy wrth fy modd gyda'r hyn rwy'n ei wneud. Mae'r ysbrydoliaeth yn dod o bethe sy o 'nghwmpas i, pethe dwi'n eu ffeindio o gwmpas y tŷ -hyd yn oed bocs o fotymau tlws. Dwi'n llawn syniade newydd!"

Gellir cysylltu â Sioned yn Adra, 8 Beddgwenan, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd LL54 5LL 01286 831353 neu drwy'r wefan http://www.adrahome.com/





Sioned Hywel


**Teithiau Amser Da**

# MAMMA MIA!

**Taith 'Sioe a Siopa'!**

Canolfan y Mileniwm, Caerdydd
Ionawr 11-12, 2011

**£156**

Gadael **MACHYNLLETH** am 9 y bore,
**PENRHYN-COCH / ABERYSTWYTH** tua 9:30

'bwffe' enwog 'Amser Da' ar y daith,
Tocyn da i'r sioe, llety yng ngwesty'r Parc (4★),
brecwast a siopa, ac adre erbyn swper.

Cysylltwch â Dai am fanylion pellach:
01970 828128 / 07989 303614
Teithiau Amser Da
Cwmisaf, Cwmsymlog, Aberystwyth, Ceredigion
**www.amserda.co.uk**

# COLOFN MRS JONES

Fe dybiech — a minnau wedi cael gwyliau gan y *Tincer* — y byddai gennyf ddigon i ysgrifennu amdano.Yn anffodus, nid gwir y gair, y mae gennyf 'writer's block', yr analllu hwnnw i feddwl am rhywbeth i ysgrifennu amdano sydd yn taro dyn — a dynes — weithiau.

Mae yn anhwylder mwy andwyol i bobl fel fi nac i awduron creadigol, nid oes gennyf ddewis, rhaid cynhyrchu colofn yn brydlon yn ôl calendr, dwy golofn yn fy achos i oherwydd y mae arnaf angen un i'r Llan yn ogystal. Ac i mi gael canu fy nghlodydd fy hun, dim ond unwaith yr wyf wedi defnyddio yr un golofn i'r ddau bapur ac yr oedd hynny oherwydd natur y golofn ac nid oherwydd diogi o f'achos i. Ond y mae'r angen hwn yn golygu fod gennyf yn ystadegol fwy o siawns sychu'n grimp nac awduron cwbl greadigol ac ni allaf fi fanteisio ar eu rhyddid hwy i roi'r berwad o'r neilltu hyd nes y daw'r awen. Y mae golygydd Y Llan a'r Tincer yn ddau olygydd hynaws ond nid yw na hynawsedd nac amynedd yn nodweddion amlwg mewn golygydd gyda thwll yn ei gylchgrawn a cholofnydd ar streic.

Sut mae goresgyn y broblem? Un ffordd, credwch neu beidio, yw ysgrifennu rhywbeth, gwna can llinell (Rhaid plesio'r golygydd!) neu restr neges y tro yn iawn oherwydd gall y weithred o ysgrifennu ynddi ei hun agor y bloc. Yr ail beth yw darllen colofnau pobl eraill i weld beth sydd wedi mynd a'u bryd hwy yn y gobaith y gall hynny brocio dychymyg. Ond rhaid iddo brocio'r dychymyg yn egr neu ail bobi gwaith rhywun arall y byddwch chi ac fe fydd y straen a'r llên ladrad yn amlwg. Ac ar ben hynny, y mae pobl yn prynu'r *Tincer* i ddarllen rhywbeth newydd. Yn anffodus, ni fu hyn fawr o help i mi y mis hwn, gan ei bod hi yn ymddangos fod pawb yn y doldrums. Byddaf yn darllen yn rheolaidd waith colofnwyr megis Craig Brown, Jeremy Clarkson, Carole Malone, Lorraine Kelly, A.A.Gill a Richard Littlejohn ond y maent hwythau hefyd unai ar eu gwyliau neu'n trafod William Hague a Tony Blair.

Er gwaethaf y ffaith yr arferai tad yng nghyfraith William Hague fy ngwarchod i a'm brodyr — 'the Machynlleth connection!'- nid oes gennyf bwt o ddiddordeb yn y stori hon ar wahan i nodi ei bod hi'n stori hurt iawn, fe allech ddadlau mai'r unig beth y mae yn ei brofi yw cybydd — dod a diffyg synnwyr cyffredin. Rhyngddo ef a'i gydwybod am yr holl fusnes ac eithrio mater y synnwyr cyffredin, mae hwnnw yn beth y dylai unrhyw Ysgrifennydd Tramor ei gael ac fe ddylai synnwyr o'r fath fod wedi dangos iddo ffolineb rhannu ystafell yn arbennig yn y dyddiau hyn pan mae cyfunrywiaeth yn cael lle mor amlwg yn y cyfryngau. Mae gennyf fwy o ddiddordeb yn hanes Tony Blair er ei fod wedi f 'atgoffa o dictat Jilly Cooper fod gwell scandals gan y Toriaid petai dim ond oherwydd eu bod mor ysgyfala amdanynt ac yn eu gwneud gyda mwy o steil na Llafur. Nid oes gennyf i syniad a oedd Tony Blair yn yfed gormod neu beidio. A bwrw ei fod yn dweud y gwir am yr hyn a yfai - ac nid yn dweud celwydd fel y bydd rhywun wrth feddyg ac yn cydnabod y ddau wydraid neu'r deg sigaret y dydd a'r meddyg yn gwybod y gall roi pedwar gwydraid ac ugain i lawr yn ei lyfr bach mewn difrif -yna efalllai ei fod ar gychwyn llwybr disberod ond fe'm tarodd i mai rhyw gywilydd digon ffug oedd hwn, yr oedd rhyw gymaint o falchder yn y dweud hefyd, fe'm hatgoffai o fyfyrwyr yn bostio baint allent ei yfed trwy edifarhau am y peth. Ac i mi, mae'r ffalsder yma wedi bod yn nodweddiadol o yrfa Blair, Piwritaniaeth nad yw'n biwritaniaeth go iawn, sosialaeth nad oedd yn sosialaeth a chaledwch hunanol nad oedd yn sylwedd a'r cwbl yn cael ei gyflwyno gan ddyn sydd yn dra galluog mewn ein perswadio mai ef sydd yn iawn am mai ef sydd yn ddeniadol a gwleidyddol gywir. I mi, gallaf weld yn iawn paham nad oedd ef a Gordon Brown yn gyfeillion, nid oedd Brown yn gysurus yn gymdeithasol ond yr oedd o ddifrif yn berchen y rhinweddau y ceisiai Blair eu harddangos a diau fod hynny yn esbonio'r cwenc rhygddynt wrth i un fod yn ddiamynedd o wendegwch y llall a Blair eiddigeddu wrth sowndrwydd Brown. Ar lawer ystyr, Blair oedd y mwyaf deniadol o'r ddau ond Brown oedd yn gwisgo fel y dywedai fy mam ac, ni wnaed unrhyw ymgais i ddeall hynny gan barti o bobl yr un mor fas a Blair. Do, fe gollodd Gordon Brown yr etholiad ond fe'i collodd oherwydd angharedigrwydd ei barti lawn gymaint a'i fethiannau cymeriadol ef ei hun, methiannau a oedd, yn eironig ddigon, yn cuddio y rhinweddau a hawliai Blair a'u harddangos ar ei lawes heb eu gwisgo yn y galon.

Fe ddiweddaf trwy adrodd hanes nain yng nghyfraith William Hague, Mrs Jenkins. Yr oedd hi, fel fy mam fy hun, yn odmidod ymysg mamau Machynlleth oherwydd yr oeddynt yn gweithio. Gweithiai Mrs Jenkins yn llawn amser yn brifathrawes ysgol Darowen ac fe redai'r ysgol honno yn ysgol gwbl Gymraeg ei hiaith gan mai Cymry uniaith oedd y disgyblion. Roedd ganddi ddirprwy ond yr oedd y dirprwy yn wael ac fe anfonwyd un i'w chyflenwi gan yr awdurdod addysg, athrawes uniaith Saesneg ei hiaith. Ffoniodd Mrs Jenkins i gwyno ac aeth y sgwrs yn go flêr gan orffen, yn ôl a glywais, gyda'r geiriau anfarwol 'Mi fydde mwnci fwy o iws i mi dim ond iddo fo fod yn medru Cymraeg!"
Do fe ddaeth colofn — sydd yn profi grym y technegau dadblocio!


**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w
lladd mewn
lladd-dy lleol



Cysylltwch â
Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

**MARK HUGHES**
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

**C.J.Belsey Cyf**
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
- Arolygon Adeiladau
- Cynllunio adeiladau newydd.
- Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
- Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.

Ffon: 01970 820166

**TAFARN TYNLLIDIART**
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

## COLOFNYDD Y MIS



### Lucy Huws

Mae hi'n ddeg ar hugain o flynyddoedd ers i mi ysgrifennu i'r Tincer diwethaf, a hynny pan yn fyfyriwr iaith a llen Tseina, ar y pryd yn astudio mewn coleg ym Meijing. Bryd hynny roedd Tseina yn wlad bell i ffwrdd, doedd dim awyrennau yn hedfan yn uniongyrchol i Beijing, ac roedd rhaid stopio ac ail-lenwi a phetrol yn y dwyrain canol. Cofio dod 'nôl i Aber, a chymryd tacsi adre, a'r gyrrwr yn gofyn i ba fudiad Cenhadol oeddwn yn gweithio. Tseina 'y plant bach melynion ' oedd hi. Yn 1980 roedd Tseina yn dechrau agor y wlad i ymweliadau wedi'u gorchwylio'n ofalus, a hynny wedi blynyddoedd o fod wedi cau'r ffiniau yn llwyr i wledydd y Gorllewin. Roeddem yn destun chwilfrydedd mawr, mewn rhai ardaloedd lle nad oedd y bobl wedi gweld pobl wynion, sibrydid 'gueizi' sef ysbrydion wrth i ni basio, a ngwallt coch yn cadarnhau rhyw gysylltiad a byd tu hwnt i'r bedd. Nid anarferol oedd clywed y plant yn ymgynnull a gweiddi 'gao bizi' , 'mae'r trwynau mawr wedi dod', oedd wrth gwrs yn hollol wir o weld eu hwynebau twt.

Erbyn heddiw wrth gwrs cyfeirir atom fel 'laowai' -tramorwyr, ac mae Tseina ei hun wedi byrstio ar ein byd yma, yn swigen o deganau a nwyddau plastig, yn berlysiau meddygol, ac ymchwil gwyddonol. Dim ond yn ddiweddar y darllenais fod Tseina yn arloesi mewn ymchwil oedd yn dangos fod llaeth asyn er enghraifft yn gallu gwella cancr yr ysgyfaint. Tseina heb os, ydy'r wlad sydd yn dal yr allwedd i ddatblygiad cytbwys yr 21 ganrif, yr ail economi bwysicaf wedi'r Unol Daleithiau. Mae buddsoddiad gan Tseina, wedi achub economi wan gwlad Roeg er enghraifft, gan ei chadw rhag mynd a'r maen iddi. Yn llechwraidd o dawel wrth gwrs mae Tseina yn prynu dylanwad, yn ail-sefydlu'r ffordd silc ac agor llwybrau masnachu a dylanwad iddi ei hun.

A chyn ein bod ni yng Nghymru, yn meddwl mai bach a dibwys ydym yng ngolwg cawr o wlad fel Tseina, roeddwn mewn cenhadlaeth i athrawon Mandarin yn Llundain yn ddiweddar, ac Attache o lysgenhadaeth Tseina yno, yn son am ymdrechion ei lywodraeth i hybu addysgu'r iaith Tseineg o fewn ysgolion ym Mhrydain, ac yn mynnu '.... os na wrando y llywodraeth yn Llundain arnom, awn yn unswydd at y llywodraeth yng Nghymru ac yn yr Alban'. Felly dyna hi, mae'r 'Sefydliad Confucius', cynrychiolaeth llywodraeth Tseina, ychydig fel y 'Cyngor Prydeinig', eisoes yn rhan o brifysgol Caerdydd a Llanbed, ac yma i hybu cyfleoedd dysgu'r iaith yn ein hysgolion.

Iaith, wedi'r cyfan, ydy'r allwedd i ddeall gwlad a diwylliant. Sut all y cyfieithiad 'argyfwng', er enghraifft, fyth gyfleu'r ystyr Tsineg 'peryglon a chyfleoedd'? Fel ys dywedodd Charlemagne dros fil o flynyddoed yn ôl, 'o ddysgu iaith arall, fe enillwch enaid arall '. Mae deall pwysigrwydd dysgu a pharchu ieithoedd eraill, yn rhywbeth deallwn ni yng Nghymru.

Mae'r sgript Tseineg yn ymestyn pum mil o flynyddoedd, a'i llenyddiaeth gynnar yn naid sgipio drwy'r canrifoedd ar fambŵ a memrwn, gan grynhoi profiadau'r werin a thynnu tafod ar fympwyon unbeniaethol llywodraethau, gan gynnwys Mao. Teithiwch unigeddau Tseina, ac ymhobman bydd graffiti'r cenedlaethau a fu, wedi'u gerfio ar greigiau a cherrig, yn dirwedd sy'n siarad. Yr eironi wrth gwrs ydy nad ydy'r to presennol yn gallu ei ddarllen yn hawdd. Yn 1949, pan ddaeth y Comiwnyddion i rym, symleiddwyd y sgript i alluogi'r boblogaeth i ddarllen. Nid yw hyn yn wir i gymundeau Tsineg y tu allan i Tseina mewn mannau fel Hong Kong neu Taiwan er engraifft, ac hyd yn oed yn y Siapanaeg. I lawn werthfawrogi cyfoeth y diwylliant Tseineg mae'n rhaid wrth yr hen sgript.

Gyda Tseina yn cynnig ogof Aladin o gyfleoedd gwaith, masnach ag ymchwil, gwych o beth ydy cael y posibiliad o ddysgu'r iaith yn yr ysgolion a'r colegau lleol . Gobeithio daw to ifanc i fanteisio ar yr hyn sydd gan Tseina a'r Tsineaid i'w chynnig, i anturio'u hunain, ac i roi Cymru ar y map ochr draw'r byd. Nôl ddes i fagu teulu yn agosach at dylwyth a chymdogaeth. Fel ys dywedodd Lao Zi dwy fil a hanner o flynyddoedd yn ol , a dwbl hynny o filltiroedd i ffwrdd, 'nid oes rhaid wrth deithio'n bell i ddeall y byd a'i bethau'. O'r filltir sgwâr ddaw cam cynta bob siwrne.

Blodau i bob achlysur
**Blodau'r Bedol**
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD BOW STREET**
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**TACSI EDDIE**
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

## blAGur ac AGwedd



Cynhelir dau glwb drama gan Arad Goch yn y Ganolfan yn Stryd y Baddon, Aberystwyth sef blAGur ar gyfer oed cynradd ac AGwedd ar gyfer oed uwchradd. Tra yn ddisgybl yn Ysgol Rhydypennau mynychodd Beca Angharad Davies o Landre, clwb blAGur ac erbyn hyn mae'n aelod hapus o AGwedd. Dyma yw ei barn hi am y ddau glwb :

"Dechreuais fynd i blAGur ar fore Sadwrn pan oeddwn yn saith oed. Roeddwn wrth fy modd yno. Cefais gyfle i wneud ffrindiau newydd o ysgolion gwahanol, ac mae rhai ohonynt bellach yn ffrindiau pennaf i mi ym Mhenweddig.

Rwyf bellach yn ddeuddeg oed ag yn joio yn y clwb uwchradd, sef AGwedd. Rydym yn cwrdd ar ddydd Iau ar ôl ysgol. Yn y clwb rwy'n gallu cael hwyl efo fy ffrindiau a hefyd dysgu gwella fy sgiliau perfformio ar yr un pryd. Mae fy hyder wedi gwella, ac rwyf hefyd wedi gwneud ffrindiau newydd. Rydym yn chwarae gemau dwl, yn gwneud gwaith byrfyfyr ac mae yna lawer iawn o chwerthin. Mae paratoi at y sioeau yn llawer o hwyl hefyd, ac mae perfformio efo fy ffrindiau yn gyfle grêt. Cyn Nadolig y llynedd gwnaethom lwyfannu sioe o'r enw "Dim Batris", oedd yn brofiad hynod o gyffrous ac yn llwyddiant aruthrol. Roedd yna bosteri yn yr ysgol hyd yn oed! Rwy'n edrych ymlaen at ein sioe nesaf!"

Os hoffech fwy o fanylion am blAGur neu AGwedd yna cysylltwch gydag Arad Goch ar 01970 617998.

LLETY PARC

Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas


Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com


# ADOLYGIADAU

R. Gerallt Jones *O wythnos i wythnos* Y Lolfa 256t £9.95




Yn y rhifyn cyntaf oll o'r Tincer (Medi 1977), adroddwyd am gyfarfod diddorol yn y Babell, Dôl-y-bont, pan roddwyd croeso a theyngedau'r fro i'r diweddar R. Gerallt Jones a oedd wedi ennill y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam y mis blaenorol. Bu'r cyfarfod yn Nôl-y-bont, wrth gwrs, am mai yno y trigai Gerallt, ac ychwaneger at hynny ei fod yn gyfrannwr achlysurol i'r papur bro newydd, ac fe welir mai cwbl addas yw rhoi sylw i'r gyfrol o'i ysgrifau a ymddangosodd yr haf hwn.

Detholiad sydd ynddi o erthyglau a ymddangosodd yn Y Llan, wythnosolyn yr Eglwys yng Nghymru, rhwng Mehefin 1960 a Mehefin 1962, pan oedd Gerallt yn ŵr ieuanc yn ei ugeiniau, ond a oedd o safbwynt ehangder ei ddiwylliant a'i orwelion — yn ymddangos yn llawer hŷn na'i oedran. Ar un lefel gellir synio am y casgliad hwn fel math o ddyddiadur sy'n ein hatgoffa am ddigwyddiadau a phobl a oedd ar ganol y llwyfan ar ddechrau chwedegau'r ganrif ddiwethaf — Nikita Kruschev, Martin Luther King, Pandit Nehru, John F Kennedy, Michael Foot, i enwi ond rhai — ac eraill hefyd y tyfodd y mwswg dros eu henwau bellach, megis Sydney Silverman, Ray Gunter, Garfield Todd, Moise Tshombe a llawer mwy.

Ond nid dyddiadur yn unig a geir yma yn nodi digwyddiadau diddorol wrth iddynt ddilyn un ar ôl y llall, ond portread o gyfnod byr ond arbennig yn ein hanes. Pwysir a mesurir materion llosg y dydd, a'u dadansoddi â meddwl clir a threiddgar, a hynny mewn Cymraeg sy'n bleser i'w ddarllen. Y Bom Atomig, gwrthdystiadau CND, apartheid yn Ne Affrica, y ddadl dros agor y tafarnau ar y Sul yng Nghymru a phynciau amrywiol eraill o'r fath. Yn gymysg â hyn ceir darnau o feirniadaeth lenyddol graff (a beiddgar weithiau) sy'n barod i fynd i'r afael heb rhyw ormod o barchedig ofn bob amser — â gweithiau beirdd a llenorion fel Saunders Lewis, Kate Roberts, Islwyn Ffowc Elis, Bobi Jones ac R.S. Thomas.


Dyma un o'r cyfrolau pwysicaf a mwyaf diddorol i ymddangos eleni, ac er llunio ei chynnwys bron hanner canrif yn ôl bellach, y mae'n berthnasol iawn i'n dyddiau ni ac yn ffynhonnell werthfawr o ddeunydd i gnoi cil arno. Y mae arnom ddyled fawr i Sŵ am y dethol ac am lywio'r gyfrol trwy'r wasg.

**Tegwyn Jones.**

**Cofiwch gysylltu â ni: ytincer@googlemail.com**




Lleucu Roberts *Stwff — Guto S. Tomos*. Y Lolfa 144t. £5.95




Mae '*Stwff* — wedi ei hysgrifennu gan Lleucu Roberts ('*AI*'; '*Annwyl Smotyn Bach*'; '*Iesu Tirion*') a'i chyhoeddi gan Y Lolfa — yn nofel newydd sbon i'r arddegau am fachgen tair-ar-ddeg mlwydd oed sy'n penderfynu ysgrifennu hunangofiant o fath am ei fywyd helbulus, sy'n cynnwys y ferch mae naill ai'n ei chasau neu'n ei charu, ei brotestio dros yr iaith Gymraeg, a'r teulu mwyaf anghonfensiynol rydych chi'n debygol o weld mewn nofel Gymraeg.

Pan mae Guto S. Tomos yn cael dyddiadur ar ei ben-blwydd, mae'n dechrau cofnodi'r holl helyntion sy'n digwydd iddo. Yn sydyn, mae ei fam yn cael "ment" (llond bol; mental breakdown) achos ei bod hi wedyn cael digon ar yr holl drydan mae'i phlant yn gwastraffu ar eu ffonau, teledau a'r teclynau gemau sy'n gwastraffu eu hamser a'u hiechyd, yn ogystal a'u arian, felly mae hi'n gadael y cartref ac yn gadael ei phlant yng ngofal Sam, ei phartner sy'n 'eBay-addict' ac yn dipyn bach o 'pushover'.


Mae '*Stwff* yn gweithio'n wych achos mae'r prif gymeriad yn un gall pawb uniaethu gydag ef, os ydyn nhw'n 14 neu'n 44. Mae'n syndod, hefyd, pa mor 'authentic' mae'r arddull o hunangofiant yn teimlo - er bod Lleucu Roberts yn ddynes ganol-oed, mae '*Stwff* wir yn teimlo fel bod e wedi cael ei ysgrifennu gan fachgen tair-ar-ddeg mlwydd oed. Mae'r troed-nodiadau sy'n ymddangos ar ran fwyaf o'r tudalennau dim ond yn ychwanegu at yr hiwmor a'r tristwch sydd i'w cael yn '*Stwff*. Mae hyn yn arddull arloesol yn y Gymraeg, er fod troed-nodiadau yn fwy cyffredin mewn nofelau i'r arddegau yn America. Beth sydd yn fy synnu hyd yn oed yn fwy, serch hynny, yw pa mor ddwys yw rhai o'r themau sy'n ymddangos yn '*Stwff* - mae marwolaeth, cariad, materoliaeth, chwalfa deuluol, a hyd yn oed dyfodol yr iaith Gymraeg i gyd yn themau sy'n ganolog i'r plot.

Os oes gan '*Stwff* wendid, mae'r diweddglo braidd yn "anti-climatic" ac mae'r llinyn plot rhamant braidd yn anghredadwy, ond ar y cyfan, mi fuaswn i bendant yn argymell '*Stwff*. Rwy'n edrych ymlaen yn barod at nofel nesaf Lleucu Roberts.

**Dylan Edwards**

---

Hywel Roberts a Peter Davis *Birds of Ceredigion*. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Canolbarth a Gorllewin Cymru. 302t. £16.50




Roedd colli'r gŵr hynaws Hywel Wyn Roderick yn Ionawr 2009, ac yntau ond yn 54 oed, yn golled arthurol nid yn unig i'w deulu, ond i gymuned eang o'i ffrindiau a'i edmygwyr yn y byd adara. Nid oedd neb yng Nheredigion yn gwybod mwy am y maes hwn na Hywel, ond roedd yn gwbl ddiymhongar ynglyn â'i holl wybodaeth. Byddai Hywel yn treulio oriau ar ben ei hunan yn crwydro'r cyfoeth o gynefinoedd hynod amrywiol sydd gennym yn y sir, gan gofnodi yr hyn a welai ac a glywai yn fanwl a gofalus. Ac ar ddiwrnodau pan fyddai'n rhy wlyb i unrhyw dderyn fod allan byddai'n ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol i ddarllen cofnodion hen giperiaid stadau'r sir er mwyn canfod beth oedd statws rhai o'r rhywogaethau yn ystod y 19eg ganrif, a byddai'r wybodaeth honno'n gymorth iddo ddehongli niferoedd presennol rai o'n adar prinaf. Bu Hywel yn gyfrifol am flynyddoedd am gasglu a golygu'r adroddiad blynyddol ar adar Ceredigion, ac gwnaeth hynny'n gwbl drwyadl a chydwybodol fel y byddech yn ddisgwyl gan un a hyfforddwyd fel gwyddonydd ym Mridfa Gogerddan. Mae'r gyfrol hon, a gyd-olygwyd gan un arall o arbenigwyr a chofnodwyr y sir, Peter Davis, yn drysor o wybodaeth sy'n cynnwys llawer o luniau, ystadegau a graffiau ac yn cofnodi'n fanwl iawn statws pob rhywogaeth, gan nodi hefyd yr ymwelwyr prin neu achlysurol hynny sy'n cyffroi unrhyw adarwr. Mae'n dda gwybod bod holl waith maes gwerthfawr iawn Hywel wedi ei ddiogelu, a hynny o fewn cloriau llyfr mor ddeniadol.

Mae'r gyfrol ar werth mewn siopau lleol.

**Richard E. Huws**

## O'R CYNULLIAD



Tymor yr haf, wrth gwrs, yw tymor y sioeau lledled Ceredigion. Yn sicr, sioe fwyaf Ceredigion dros yr haf oedd y Sioe Fawr yn Llanelwedd, neu Sioe'r Cardis fel y daethom i'w hadnabod eleni! Fe dreuliais i'r pedwar diwrnod yn crwydro'r maes ac roeddwn yn falch iawn i weld cymaint o wynebau cyfarwydd yno a chroeso gwresog y Cardis i'w deimlo ym mhobman!

Ar faes Sioe'r Cardis, fe ymunais â Gweinidog yr Amgylchedd, Jane Davidson, AC, i lansio canllawiau cynllunio newydd fydd yn ei gwneud hi'n haws i godi tŷ yng nghefn gwlad ar gyfer pobl sy'n gweithio yno. Ymysg y rheolau newydd mae yna ganllawiau sy'n ei gwneud hi'n bosib i godi ail dŷ ar fferm er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo'r fusnes i'r genhedlaeth nesaf. Mae disgwyl i swyddogion cynllunio'r Cyngor ddefnyddio'r canllawiau newydd yn syth ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gweld effaith y rheolau newydd yn y dyfodol agos.

Yn ystod y Sioe Frenhinol, fe wnes hefyd lansio Cynllun Cymorth Band-eang newydd Llywodraeth y Cynulliad ar y cyd gyda'r Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones, AC. Bwriad y cynllun yw darparu grant o hyd at £1,000 yr eiddo i dai a busnesau ar draws Cymru sydd dal yn methu cael cyswllt â'r rhyngrwyd fand-eang. Mae modd defnyddio'r grant naill ai fel unigolion i brynu system addas (fel rhyngrwyd fand-eang trwy loeren) neu gydweithio ar lefel cymunedol i brynu system ddi-wifr ehangach. Os ydych am gael mwy o wybodaeth am y cynllun newydd hwn, mae croeso i chi gysylltu â'm Swyddfa Etholaeth yn Aberystwyth ar 01970 624 516.

Yn ychwanegol i'r Sioe Fawr, fe fynychais ddigwyddiadau eraill dros yr haf, gan gynnwys Sioe Dyffryn Teifi, Sioe Aberteifi a'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynebwy. Roedd hi'n dda gweld cymaint o gystadleuwyr o Geredigion yn cyrraedd y brig yn y digwyddiadau yma a hoffwn eu llongyfarch ar eu llwyddiannau.

**Elin Jones AC**

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
*Sefydledig dros 30 mlynedd*
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ytincer@googlemail.com

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Prysurdeb

Ar ddechrau blwyddyn academaidd arall, mae prysurdeb yr ysgol yn parhau. Yn barod, rydym yn y broses o ethol, trwy bleidlais, y Cyngor Ysgol. Fel pob blwyddyn arall mi fydd aelodau'r cyngor yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig a sicrhau llais swyddogol i weddill y disgyblion. Yn ychwanegol i hyn, ac ar ôl cwblhau ffurflenni cais a chyfweliadau gyda'r prifathro, mae blwyddyn 6 yn ran o Griw Cŵl yr ysgol. Maent yn gyfrifol am nifer o ddyletswyddau pwysig yn ystod y flwyddyn.

## Garddwest yr ysgol

Ar y 25ain o Fehefin cynhaliwyd Garddwest yr ysgol. Eleni penderfynwyd ei chynnal ar nos Wener ac fe'ihagorwyd yn swyddogol gan Mrs Linda Jones; cyn-athrawes yr ysgol ers nifer o flynyddoedd. Cafwyd nifer o weithgareddau difyr ac amryw o stondinau pwrpasol er mwyn codi arian i'r ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r dydd ac i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth ar y dydd hefyd. Diolch i Dafarn Rhydpennau, prif noddwr yr arddwest eleni, ac hefyd i 'Alan's Alterations', Sioned a Gerwyn Evans a Rheinallt Morgan am eu cyfraniadau hael hwy. Mi fydd yr arian a godwyd yn ystod y dydd yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau pwysig iawn er mwyn hyrwyddo addysg pob plentyn yn yr ysgol.

## Dal lan â digwyddiadau

Ar ddiwedd y tymor diwethaf, cafodd blwyddyn 5 a 6 gyfle i ymweld â'r Cynulliad yn y dre. Mwynhaodd pawb y daith ddiddorol o gwmpas yr adeilad a'r gweithgareddau difyr dan ofalaeth Deian Creunant. Yn dilyn hyn, treuliodd y plant y prynhawn yn y Llyfrgell Genedlaethol yn dysgu am hanes dadleuol boddi Tryweryn. Diolch i Rhodri Morgan am ei drefniadau a'i weithgareddau hwylus.

Cafwyd perfformiad rhagorol gan dîm criced yr ysgol wrth gipio pencampwriaeth Ceredigion fis Gorffennaf. Ond methu wnaethant yn rownd Cenedlaethol Cymru o un rhediad er mwyn cyrraedd y rownd Brydeinig yng nghystadleuaeth 'Quick Cricket' Bwrdd Criced Cymru a Lloegr.

Efallai i chi weld yr ysgol ac amryw o blant yr ysgol ar y teledu fis Awst. Bu criw ffilmio 'Byw yn yr Ardd' yn creu rhaglen am ein gardd ar ddiwedd y tymor diwethaf.. Ac yn ola', cafwyd ymweliad gan ddau heddwas fis Gorffennaf er mwyn atgyfnerthu yr elfennau o ddiogelwch sy'n hanfodol yn ein cymdeithas gyfoes bellach. Cafwyd cyflwyniadau a gweithgareddau ar gyffuriau, tybaco a syrffio'r 'We' yn ddiogel.

## Ffarwelio

Hoffai'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 y llynedd wrth iddynt ddechrau bywyd addysgol newydd yn yr ysgolion uwchradd. Derbyniodd pob un ohonynt rodd wrth ymadael â'r ysgol am y tro olaf.



Pob hwyl i flwyddyn 6 llynedd.



Criw ffilmio 'Byw yn yr Ardd' yn ymweld a'r ysgol.



Y tim criced yn llwyddo.



Mrs Linda Jones yn agor Garddwest yr ysgol.



Ymweld a'r Cynulliad

# YSGOL PEN-LLWYN

### Tystysgrif Beicio Diogel

Bu plant Blwyddyn Pump a Chwech yn dilyn cwrs sylfaen beicio y tymor hwn. Diolch i Mr M. Charlton am eu hyfforddi mor drylwyr.

### Arad Goch

Bu Mari Rhian Owen yn cynnal gweithdai iaith gyda plant y ddau ddosbarth. Diolch iddi am ei chyfraniad a'r profiadau mae'n gynnig. Hefyd daeth Elin Crowley atom ni i gynnal sesiwn argraffu am brynhawn gyda Dosbarth 1. Roedd yn braf cael gwneud annibendod.

Poster Ciniawau Ysgol Ceredigion Llongyfarchiadau i Matthias Roberts Bl.6 am ddod yn fuddugol am greu poster i ddenu plant i fwyta cinio iach yn Ysgolion Ceredigion. Bydd y poster yn cael ei ddefnyddio gan y Sir yn eu hysbysebion.

### Mabolgampau

Cynhaliwyd Mabolgampau'r ysgol yng Nghwmrheidol eto eleni. Bu cystadlu brwd rwng y dair ysgol, Syr John Rhys, Capel Seion a Phen-llwyn. Cawsom ddiwrnod braf a llawer o hwyl. Diolch am dywydd godidog i gwblhau'r gweithgareddau. Llongyfarchiadau i Amy Dryburgh a Tomos Evans am gael y marciau uchaf yn y mabolgampau.

### Mabolgampau Cylch Aberystwyth

Llongyfarchiadau i'r plant canlynol am wneud mor dda yn y mabolgampau.
3ydd yn y Naid Hir — Tomos Evans
3ydd yn taflu pêl — Nuala Ellis-Jones
3ydd yn 400m — Jo Jones
1af yn 800m — Tomos Evans
1af i'r tîm ddaeth yn gyntaf yn y ras gyfnewid i ysgolion dau athro.
1af yn 100m i ferched Blwyddyn 6 — Amy Dryburgh
3ydd yny 60m sprint — Alaw Evans.
Diolch i bawb a gymerodd ran.

### Trip

Aeth Trip yr ysgol i lawr i Sir Benfro. Mwynheuodd Dosbarth 1 ddiwrnod yn Folly Farm a Dosbarth 2 yn Heatherton. Roedd y plant bach wedi gwirioni gyda'r jiraffs bach a'r daith yn y gert. Go carts oedd ffefryn y plant mawr a brwydr ddŵr yn erbyn ysgol arall. Pinacl y diwrnod oedd sglodion ar y cei yn Aberaeron.

### Diwrnod Gwobrwyo

Cynhaliwyd diwrnod gwobrwyo yr wythnos olaf. Bum hefyd yn ffarwelio â blwyddyn chwech. Llongyfarchiadau i'r plant a enillodd wobr pwnc neu wobr blwyddyn.

### Gŵyl Drosglwyddo PESS – Gwyl chwaraeon

Aeth dosbarth dau i Ysgol Penglais i fwynhau diwrnod o chwaraeon amrywol i ddatblygu sgiliau pêl gemau cystadleuol.

Blwyddyn 6
Dymuniadau gorau i Matthias Roberts, Amy Barron, Amy Dryburgh a Rhian James yn eu hysgolion uwchradd.

### Sioe Capel Bangor

Matiau Islamaidd — Bl.5 a 6
1. Amy Dryburgh
2.Alison Keegan
3.Matthias Roberts

Matiau Islamaidd— Bl . 3a4
1.Iestyn Watson
2.Alaw Evans
3.Nuala Ellis Jones

Modelu Hunan Ddewisiad— Bl.5 a 6
1. Amy Barron a Gethin ap Dafydd
2.Rhian James
3.Matthias Roberts
Model Hunan Ddewisiad— Bl. 3 a 4
1. Steffan Lewis
2.Haf Evans
3.Jack Barron

Adeiladau— Bl. 5 a 6
1. Matthias Roberts
2.Amy Dryburgh
3.Alison Keegan

Adeiladau — Bl 3 a 4
1. Alaw Evans
2. Haf Evans
3. Nuala Ellis Jones

Castell Breuddwydiol
1. Alaw Evans
2. Steffan Lewis
3. Rebecca Jones-Williams
Print leino — Eglwys Dewis Sant
1. Gethin ap Dafydd
2. Alison Keegan
3. Keiran a Tomos


Babanod yn Folly Farm.


Beicio Diogel.


Mabolgampau yng Nghwmrheidol.


Matthias Roberts Bl. 6 daeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth Ciniawau Ysgol Ceredigion.

Jac a'r goeden ffa
1. Morgan Kensler-Joyce
2. Blake Bostock
3. Alan Williams
Argraffu
1. Laura Jones-Wlliams
2. Alan Williams a Morgan Kensler Joyce
3. Elfyn Hancox

### Disgyblion newydd

Braf oedd cael croesawu pedwar disgybl newydd i'r ysgol ar ddechrau'r tymor newydd. Croeso cynnes i chi i gyd i Ysgol Pen-llwyn.

# TASG Y TINCER




Joshua Evans

Wel, gobeithio i chi fwynhau eich gwyliau haf. Mae'r wythnosau diwethaf wedi hedfan! Rwy'n siwr bod nifer ohonoch wedi ymweld â'r Sioe yn Llanelwedd, a'r Eisteddfod yng Nglynebwy. Gawsoch chi hwyl ar y cystadlu yn sioe Penrhyn-coch, Rhydpennau neu Gapel Bangor tybed? A beth am garnifal y Borth? A faint ohonoch chi fu'n gwylio Wimbledon, a Chwpan y Byd? Mae wedi bod yn haf digon cyffrous! Rwy wedi treulio sawl prynhawn braf ar draeth Clarach, yn hel gwymon a chregyn. Mi lwyddais i ddal cranc yn rhai o'r pyllau yng nghreigiau'r Borth hefyd! Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r plentyn yn mwynhau gêm o bêl-droed. Daeth y lluniau o bob man, a dyma'r enwau: Elfyn, 1 Y Glyn, Capel Bangor; Nia Jones, Brynolwg, Bont goch; Craig Edwards, Y Bwthyn, Lon Groes, Bow Street; Joshua Evans, Cliff House, Y Borth; Jessica Mai Evans, Talerddig, Bow Street; Sion Lewis Davies, Yr Hendy, Llangeitho; Gronw Fychan Downs, Glanrafon, Penrhyn-coch; Rhodri Jones, Tŷ'r Banc, Bont-goch; Morgan Iwan Ebenezer a Gruffudd Iwan Ebenzer Ellis, Cwr y Coed, Gwaelod-y-garth, Caerdydd; a Carwyn Davies, Cynon Fawr, Llanfihangel-y-Creuddyn.

Ti, Joshua Evans o'r Borth sy'n ennill y tro hwn. Da iawn wir, a diolch i chi gyd am gystadlu. Roedd eich lluniau yn arbennig.

A ydych wedi clywed am Ramadan? Dyma'r enw ar y nawfed mis yng nghalendar y Mwslemiaid, yn rhedeg o ddiwedd Medi i ddiwedd Hydref. Yn y cyfnod hwn, mae Mwslemiaid ar draws y byd yn mynd heb fwyd yn ystod y dydd neu'r ymprydio, gan fwyta cyn i'r haul godi ac wedi i'r haul fachlud. Suhoor yw brecwast y Mwslim, ac Iftar yw'r swper. Dyma'r adeg o'r flwyddyn pryd y bydd Mwslemiaid y byd yn myfyrio ac yn gweddïo, gan dreulio amser gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae hefyd yn amser iddyn nhw ddarllen y Qur'an, sef llyfr crefyddol sy'n debyg i'n Beibl ni, a mynychu gwasanaethau arbennig yn y Mosg. I ddathlu diwedd y Ramadan, trefnir gwyl fawr, sef 'Eid-ul-Fitr'. Yn yr wyl hon, bydd Mwslemiaid yn gwisgo eu dillad gorau, yn rhoi anrhegion i blant, ac yn treulio amser yn dathlu gyda'r teulu a'u ffrindiau — digon tebyg i'n Nadolig ni! Rhan bwysig o'r Eid-ul-Fitr yw rhoi arian i'r bobl dlawd, fel bod modd iddyn nhw hefyd fwynhau'r dathlu. Am syniad da.

Beth am liwio'r llun o'r Mosg crand lle bydd y Mwslemiaid yn mynd i addoli? Anfonwch eich gwaith erbyn Hydref 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

Llety
Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi .
Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 331 | MEDI 2010